COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG SIR DDINBYCH A BWRDEISTREF SIROL WRECSAM YN ARDAL CYMUNEDAU LLANGOLLEN A LLANDYSILIO-YN-IÂL YN SIR DDINBYCH A CHYMUNEDAU PENYCAE, CEFN, LLANGOLLEN WLEDIG, Y WAUN, GLYNTRAEAN A LLANSANFFRAID GLYN CEIRIOG YM MWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG SIR DDINBYCH A BWRDEISTREF SIROL WRECSAM YN ARDAL CYMUNEDAU LLANGOLLEN A LLANDYSILIO-YN-IÂL YN SIR DDINBYCH A CHYMUNEDAU PENYCAE, CEFN, LLANGOLLEN WLEDIG, Y WAUN, GLYNTRAEAN A LLANSANFFRAID GLYN CEIRIOG YM MWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

4. CYNIGION DRAFFT

5. CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDAETH I LAW MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

6. ASESIAD

7. CYNIGION

8. CYDNABYDDIAETHAU

9. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 St Andrews Place
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: lgbc@lgbc-wales.gov.uk
www.lgbc-wales.gov.uk

Edwina Hart AC MBE
Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG SIR DDINBYCH A BWRDEISTREF SIROL WRECSAM YN ARDAL CYMUNEDAU LLANGOLLEN A LLANDYSILIO-YN-IÂL YN SIR DDINBYCH A CHYMUNEDAU PENYCAE, CEFN, LLANGOLLEN WLEDIG, Y WAUN, GLYNTRAEAN A LLANSANFFRAID GLYN CEIRIOG YM MWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Gorffennaf 2000, rydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn), wedi cwblhau'r arolwg o ran o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ardal Cymunedau Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn Sir Ddinbych a Chymunedau Penycae, Cefn, Llangollen Wledig, Y Waun, Glyntraean a Llansanffraid Glyn Ceiriog ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a chyflwynwn ein cynigion ar gyfer ffin newydd.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn ein barn ni nid yw manteision tybiedig y newid arfaethedig yn fwy na manteision tybiedig y trefniadau presennol o gofio'r costau y bydd y cynghorau yn mynd iddynt wrth weinyddu'r newid. Felly ni allwn argymell newid i'r ffin (paragraff 6.55).

3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

3.1 Mae Adran 54(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf) yn nodi y gall y Comisiwn, o ganlyniad i arolwg a gynhelir ganddynt, gyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweithredu newidiadau sy'n ymddangos yn ddymunol i'r Comisiwn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Cyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3.2 Yn unol ag Adran 56(1) o'r Ddeddf cyfarwyddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Comisiwn i gynnal arolwg o'r ardal sy'n cynnwys Cymunedau Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn Sir Ddinbych a Chymunedau Penycae, Cefn, Llangollen Wledig, Y Waun, Glyntraean a Llansanffraid Glyn Ceiriog ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam erbyn 31 Hydref 2001. Yn Awst 2001, teimlwyd na fyddem yn gallu cwblhau'r Arolwg erbyn y dyddiad hwn, o ganlyniad i'r oedi a fu ar ddechrau'r gwaith hwn. Gofynasom am estyniad i'r amserlen gan y Gweinidog tan fis Chwefror 2002 a chaniatawyd hyn. Ymhellach at ein penderfyniad i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn Llangollen i dderbyn unrhyw dystiolaeth bellach, gofynasom am estyniad pellach tan ddiwedd Mawrth 2002 a chaniatawyd hyn.

3.3 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Comisiwn i'w harwain wrth gynnal yr arolwg yn unol ag Adran 59(1) o'r Ddeddf:

a) dylid lleoli aneddiadau preswyl ar wahân, lle bo'n bosibl, o fewn un brif ardal;
b) dylai ffiniau rhwng ardaloedd llywodraeth leol, lle bo'n bosibl, ddilyn nodweddion ffisegol amlwg fel afonydd a ffyrdd; a
c) dylid ystyried effaith unrhyw gynigion ar Sir Ddinbych.

Y drefn

3.4 Mae Adran 60 y Ddeddf yn nodi'r canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r arweiniad hwnnw ysgrifenasom, ar 9 Awst 2000, at Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac ar 15 Awst 2000 at Gynghorau Cymuned Llangollen, Llandysilio-yn-Iâl, Penycae, Cefn, Llangollen Wledig, y Waun, Glyntraean a Llansanffraid Glyn Ceiriog, yr Aelodau Seneddol dros yr etholaethau lleol, Aelodau'r Cynulliad dros yr ardal, cymdeithasau'r awdurdod lleol, awdurdod yr heddlu dros yr ardal a'r pleidiau gwleidyddol i'w hysbysu o'n bwriad i gynnal yr arolwg, i ofyn am eu safbwyntiau cychwynnol ac i roi copi iddynt o gyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Comisiwn. Gwahoddwyd Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer newidiadau i'r ffin. Hefyd, rhoesom gyhoeddusrwydd i'n bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol a ddosberthir yn yr ardal a gofynnwyd i'r cynghorau arddangos hysbysiadau cyhoeddus.

4. CYNIGION DRAFFT

4.1 Derbyniwyd sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych; Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; 24 o gynghorau tref a chymuned; Martyn Jones AS, Gareth Thomas AS; Dr John Marek AC, Karen Sinclair AC; cynghorwyr; a chyrff a thrigolion eraill oedd â diddordeb. Ystyriwyd y sylwadau hyn a cheir crynodeb ohonynt yn ein Cynigion Drafft a gyhoeddwyd ar 28 Medi 2001.

4.2 Ar ôl ystyried y sylwadau cychwynnol a wnaed i ni, daethom i'r casgliad mai'r unig newid i'w ystyried o fewn paramedrau'r arolwg fyddai newid i'r ffin i ddod â Chymunedau Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl o fewn ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Er mwyn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd ym mharagraff 3.3(c) uchod, ystyriwyd effaith y cynnig hwn ar Sir Ddinbych.

4.3 Ystyriwyd, er mwyn llunio barn hyddysg ac annibynnol ar y mater pwysig hwn, y dylai'r Comisiwn gyflogi arbenigwr ym maes cyllid llywodraeth leol i gynnal ymchwiliad. Comisiynwyd adroddiad gan Rita Hale & Associates Cyf, a ddaeth i'r casgliad y byddai gweddill Sir Ddinbych yn awdurdod unedol dichonadwy oherwydd:

- y byddai'n gwasanaethu poblogaeth fwy na phump o'r 21 o awdurdodau unedol eraill yng Nghymru;
- y byddai poblogaeth llai gwasgaredig ynddi nag sydd ar hyn o bryd – ac y byddai poblogaeth llai gwasgaredig ynddi nag wyth o'r 21 o awdurdodau unedol eraill yng Nghymru;

- y byddai, yn seiliedig ar ein dadansoddiad o ddata cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2000-01, yn debygol o fod â chyllideb fwy nag o leiaf pump o'r 21 o awdurdodau unedol eraill yng Nghymru; ac
- y byddai'n annhebyg, yn seiliedig ar y dadansoddiad o ddata'r asesiad gwariant safonol ar gyfer 2000-01, o wynebu unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor o ganlyniad i'r newid ffin.

4.4 Derbyniasom ganfyddiadau'r adroddiad hwn ac ystyriwyd na fyddai trosglwyddo Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl o ran cyllideb yn cael effaith sylweddol ar Gyngor Sir Ddinbych ac y byddai'r Cyngor yn parhau yn Awdurdod Unedol dichonadwy o ran poblogaeth, arbedion maint ac ardal ddaearyddol.

4.5 Ar ôl ystyried y sylwadau a wnaed i ni a chanfyddiadau adroddiad Rita Hale (gan gynnwys y sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r adroddiad ei hun) daethom i'r farn na fyddai manteision tybiedig y newid arfaethedig yn fwy na manteision tybiedig y trefniadau presennol o gofio'r costau y byddai'r cynghorau yn mynd iddynt wrth weinyddu'r newid. Felly nid argymhellodd ein Cynigion Drafft newid i'r ffin.

4.6 Anfonwyd copïau o'r Cynigion Drafft i bob cyngor, corff ac unigolyn y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 3.4 yn ceisio eu barn. Anfonwyd copi hefyd at unrhyw un a oedd wedi cyflwyno sylwadau cychwynnol. Drwy hysbysiad cyhoeddus, gwahoddasom unrhyw sefydliad neu berson arall â diddordeb yn yr arolwg i gyflwyno eu barn. Roedd copïau o'r Cynigion Drafft ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r Comisiwn a rhoddwyd copïau hefyd yn swyddfeydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

5 CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDAETH I LAW MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

5.1 Derbyniasom sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych; Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; 14 o gynghorau tref a chymuned; Martyn Jones AS; Gareth Thomas AS; Chris Ruane AS; Dr John Marek AC; Karen Sinclair AC; Eleanor Burnham AC; Alan Pugh AC; a chyrff a thrigolion eraill â diddordeb. Ystyriwyd pob un o'r sylwadau hyn yn ofalus cyn llunio ein cynigion.

5.2 Awgrymodd sylw a dderbyniwyd mewn ymateb i'r adroddiad ar y Cynigion Drafft y dylai trigolion Llangollen gael cyfle arall i roi tystiolaeth yn uniongyrchol i'r Comisiwn. Ystyriwyd y cais hwn gennym ac o ganlyniad trefnwyd cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dref Llangollen ar 30 Ionawr 2002. Cymerwyd trawsgript o'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod cyhoeddus ac mae'r pwyntiau a godwyd, a'r pwyntiau a godwyd mewn sylwadau dilynol, oll wedi eu cynnwys yn y crynodeb isod a rhoddwyd ystyriaeth briodol iddynt wrth lunio ein cynigion.

5.3 Gwnaeth **Cyngor Sir Ddinbych** y pwyntiau canlynol mewn ymateb i Gynigion Drafft y Comisiwn.

- Fel mater o barhad gwleidyddol a llywodraeth leol, mae Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl erioed wedi bod yn gysylltiedig â Sir Ddinbych.
- Er na fyddai Llangollen yn colli ei statws Amcan Un, byddai angen sefydlu strwythur gweinyddol ar gyfer Amcan Un yn Wrecsam yn dilyn trosglwyddo a byddai sawl blwyddyn y tu ôl i'r math o gynllunio sy'n bodoli yn Sir Ddinbych.

- Darperir pob gwasanaeth addysgol yn Sir Ddinbych ar sail gyfartal ar draws y Sir. Mae'r Awdurdod wedi datblygu un swyddog cyswllt (h.y. swyddog addysg penodedig) sy'n cysylltu â phob ysgol yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn darparu ar gyfer perthynas bersonol rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgolion ynghylch rheoli ysgolion a materion yn ymwneud â chwrwicwlwm ysgolion. Mae cysylltiadau personol tebyg hefyd wedi eu sefydlu â llywodraethwyr ysgol.
- Darperir y gyllideb fwyaf posibl y gellir ei dirprwyo i ysgolion i roi cymaint o annibyniaeth ariannol iddynt â phosibl.
- Bu Sir Ddinbych yn ymatebol i anghenion diwylliannol yr ardal drwy ddatblygu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae canran uwch o lawer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych o'i gymharu â Wrecsam. Mae awdurdod sydd â phroffil tebyg i'r ardal dan sylw yn fwy tebygol o lawer o fod yn sensitif i anghenion diwylliannaol yr ardal. Yn achos Sir Ddinbych atgyfnerthir y tebygolrwydd hwn gan strwythur gwleidyddol y Sir lle mae carfan fawr o bobl sy'n siarad Cymraeg o fewn y Cyngor sy'n teimlo'n gryf ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.
- Dengys y refferenda yn 1993 a 2000 fod y trigolion yn dymuno aros yn Sir Ddinbych (bu newid o fwy na 8% yn erbyn cael eu cynnwys yn Wrecsam.) Dangosodd refferendwm 2000 fod mwyafrif clir o 19 o blaid peidio â chynnal arolwg ffin.
- Ymddengys fod mater cydffinio a darpariaeth y Gwasanaeth Iechyd wedi ei orbwysleisio. Nid oes rheswm penodol pam bod angen i'r Gwasanaethau Iechyd gael eu darparu mewn ardal awdurdod lleol lle mae pobl yn byw neu bod unrhyw fanteision penodol yn deillio o hyn. Nid oes gan ddarpariaeth gwasanaethau gofal aciwt unrhyw berthynas benodol â ffiniau awdurdod lleol.
- Lleolir darpariaeth gofal sylfaenol yn Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn Llangollen.
- Mae Llangollen yn ganolog i'r dwristiaeth ddiwylliannol ac felly i sail economaidd Sir Ddinbych. Priodolir sylfaen Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Sir Ddinbych i Langollen fel porth twristiaeth Sir Ddinbych i'r sir. Sefydlwyd partneriaeth wirfoddol/statudol newydd rhwng Sir Ddinbych ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, gan arwain at benodi Prif Weithredwr newydd ar y cyd ac ail-leoli'r Eisteddfod i wireddu ei photensial wrth hyrwyddo Cymru a'r sir.
- Byddai effaith ariannol andwyol ar Sir Ddinbych yn sgîl trosglwyddo. Mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng ffigurau Rita Hale a ffigurau'r Cyngor yn ymwneud â gorbenion canolog addysg. Y ddadl yw, er bod y Comisiwn yn derbyn na fyddai costau gwasanaethau canolog addysg o reidrwydd yn cael eu rhannu pro-rata rhwng ysgolion, byddai'r Cyngor mewn gwirionedd yn disgwyl gallu lleihau cyllidebau, o gofio y byddai ychydig o dan 15% o'r gwasanaeth yn trosglwyddo. Mae sawl rheswm pan na fyddai hyn o reidrwydd yn gyflawnadwy yn y tymor byr i ganolig:

i) yn gyntaf, mae llawer o'r costau canolog hyn yn golygu eu bod yn sefydlog, o leiaf yn y tymor byr. Ar wahân i daliadau gwasanaethau cymorth, ni allai meysydd cyllidebau staff fel rheolaeth strategol a staff ymgynghorol, er enghraifft, gael eu lleihau yn y tymor byr. Mae'r Awdurdod wedi nodi bod £142,000 o'r gwahaniaeth rhwng ffigurau'r Cyngor a ffigurau Rita Hale yn ymwneud â Rheolaeth Strategol, a £48,000 â staff Ymgynghorol. Mae Rheolaeth Strategol yn cynnwys costau'r Cyfarwyddwr, Penaethiaid Gwasanaethau, eu Cynorthwywyr Personol a staff cymorth strategol eraill sy'n ymgymryd â swyddi penodol (e.e., arbenigwyr eiddo) ac na ellid gwneud eu rolau yn fwy cyffredinol yn y tymor byr oherwydd y sgiliau arbenigol sy'n ofynnol i

gyflawni'r rolau hyn. Mae staff Ymgynghorol y Cyngor yn bwnc-benodol yn hytrach nag ymgynghorwyr generig, felly unwaith eto, ni ellid lleihau gwariant ar staff yn y maes hwn yn y tymor byr heb gael effaith andwyol ar y pynciau a gwmpesir. Felly mae gallu'r Cyngor i leihau costau gorbenion yn y tymor byr yn gyfyngedig heb effeithio ar y cymorth a ddarperir i weddill ei ysgolion;

ii) yn ail, mae rhai o gostau gwasanaethau canolog addysg, er enghraifft Anghenion Addysgol Arbennig (£102,000 o wahaniaeth rhwng ffigurau Sir Ddinbych a ffigurau'r Comisiwn) yn ymwneud â disgyblion penodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion â datganiad yn ardal Sir Ddinbych yn byw yng ngogledd y sir, a dim ond ychydig yn byw yn yr ardal drosglwyddo. Felly caiff y rhan fwyaf o'r costau sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig eu cadw gan Sir Ddinbych; ac

iii) yn drydydd, mae cyfran fawr o'r gyllideb (£124,000) yn ymwneud â Thrafnidiaeth. Mae llawer o'r gwariant hwn yn ymwneud â phlant sy'n byw y tu allan i ardal yr arolwg, ond sy'n mynychu Ysgol Dinas Brân. Cyngor Sir Ddinbych fyddai'n gyfrifol o hyd am gludo'r plant hyn a thalu'r costau cysylltiedig.

Byddai'r un dadleuon yn berthnasol o ran ysgolion cynradd.

- O ran y ddarpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Addysg Arbennig a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb yn y meysydd hyn yn benodol i safle. Nid oes unrhyw Ysgolion Arbennig yn yr ardal drosglwyddo, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf o'r costau Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â chanolfannau cyflwyno gwasanaeth y tu allan i ardal yr arolwg (nid oes unrhyw gartrefi i henoed yn yr ardal yr arolwg ychwaith), ac â lleoliadau EBD (Anableddau Emosiynol ac Ymddygiadol) plant y tu allan i'r sir (nad oes yr un ohonynt yn ymwneud â phlant sy'n byw o fewn ardal yr arolwg).
- Cyfeiria'r Comisiwn at y symiau a ddosberthir yn orbenion na ellir eu dosrannu neu wasanaethau gweinyddu a chymorth na ellir eu dyrannu gan awgrymu nad yw'r ffaith nad yw gorbenion yn briodoladwy i wasanaethau yn golygu na ellir gwneud arbedion os bydd y boblogaeth a maint yr ardal yn newid. Fodd bynnag, dengys dadansoddiad a ddarperir gan yr Awdurdod fod y gorbenion na ellir eu dosrannu a gynhwysir yn y ffurflen Cyfrif Refeniw yn ymwneud ag ôl-ariannu pensiynau a chynnydd mewn pensiynau. Ni fyddai'r costau hyn o reidrwydd yn cael eu trosglwyddo i Wrecsam.
- Dyfynna'r Comisiwn ystadegau ar gyfer detholiad o awdurdodau yng Nghymru sy'n dangos bod costau Sir Ddinbych na ellir eu dosrannu/dyrannu yn gymharol uchel yn ariannol a bod gan awdurdodau llai o ran y boblogaeth wariant is yn erbyn y penawdau hyn. Fodd bynnag, efallai fod hyn o ganlyniad i'r ffaith mai Sir Ddinbych oedd un ymhlith nifer fach o awdurdodau i gymhwyso rheolau'r BVACOP (Y Cod Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr) wrth gwblhau'r ffurflen Cyfrif Refeniw, a arweiniodd at ddosbarthu ôl-ariannu pensiynau a chynnydd mewn pensiynau yn "rhai na ellir eu dosrannu". Mae costau rheolaeth gorfforaethol Sir Ddinbych mewn gwirionedd yn is na phob awdurdod arall yng Nghymru heblaw un.
- Yna mae'r Comisiwn yn cwestiynu natur anochel mynd i orbenion mawr a rhai na ellir eu lleihau sy'n amherthnasol i faint yr Awdurdod, er ei fod yn derbyn y gall fod yn anodd eu lleihau yn y tymor byr. Er y cyfaddefir y gellir newid pob un o'r gorbenion yn y tymor hir, bydd y gallu i leihau costau yn y tymor byr neu hyd yn oed y tymor canolig yn dibynnu ar:

i) a yw'r strwythurau staff yn golygu yr effeithir yn sylweddol ar feichiau gwaith grwpiau o gyflogeion ar wahân (yn hytrach na gostyngiad cyfartalog cyfatebol ag amser llawn); a

ii) cyfran y gorbenion sefydlog (h.y. Pennaeth Addysg, systemau cyfrifiadurol, ad-daliadau sefydliadau canolog) o'u cymharu â gorbenion amrywiol (deunyddiau swyddfa, milltiroedd).

Felly mae'r gymhariaeth â chostau is mewn awdurdodau llai yn amherthnasol – gall y baich gwaith a'r dyletswyddau fod yn wahanol, a gall y methodolegau cyfrifo ar gyfer ad-dalu gorbenion canolog fod yn wahanol hefyd. Y broblem yw a allai Sir Ddinbych wneud newid bach i'w chostau yn hawdd. Byddai angen i Sir Ddinbych ddadansoddi'r costau hyn yn fanylach ac ar draul dyletswyddau eraill er mwyn gwneud hyn.

5.4 Mewn sylw pellach a wnaed yng Nghyfarfod Cyhoeddus y Comisiwn yn Neuadd y Dref Llangollen ar 30 Ionawr 2002 gwnaeth **Cyngor Sir Ddinbych** y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Mae perthynas Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl â chymunedau Dyffryn Dyfrdwy, yn enwedig Corwen, yn un sy'n ffurfio conglfaen yn strwythur Dyffryn Dyfrdwy a'i ddiwylliant a'i hanes.
- Pe bai Llangollen yn cael ei throsglwyddo i Wrecsam, byddai'n ei gwneud yn fwy, nid yn llai, anodd i'r Sir gyflawni ei dyletswyddau, Dadl sylfaenol Sir Ddinbych yw bod yn rhaid i unrhyw newid ddiwallu'r angen i sicrhau llywodraeth leol gyfleus ac effeithiol a rhaid iddo fod yn newid y mae pobl y gymuned yn ei ddymuno.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mynd trwy gyfnod ariannol anodd iawn dros y chwe blynedd diwethaf a gallai yn hawdd fod wedi ceisio digolledu ei hun am hyn drwy gwtogi ar wasanaethau anstatudol diwylliant, hamdden a thwristiaeth. Fodd bynnag, ni wnaethpwyd hyn, ac roedd hyn yn bwysig iawn oherwydd er y byddai'r rhan fwyaf o bethau o bosibl wedi goroesi'r cyfnod hwnnw, ni fyddent wedi datblygu yn yr un modd ag y maent wedi datblygu yn Sir Ddinbych heb ymrwymiad cryf yr aelodau a'r swyddogion.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio am chwe blynedd i ddatblygu Sir Ddinbych fel prif sir ddiwylliannol Gogledd Cymru. Bu gwybodaeth ac arbenigedd ac ymrwymiad swyddogion y cyngor yn amhrisiadwy wrth lwyddo i ddenu cymorth y Loteri Treftadaeth a oedd yn ail unig i Gaerdydd.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cael arian loteri o dri chwarter miliwn ar gyfer cynnal a chadw Plas Newydd. Cyfatebwyd hyn gan y Cyngor gyda chwarter miliwn o'i gyllideb ei hun, gwariant sylweddol ar wasanaethau anstatudol.
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp twristiaeth newydd a gafodd £90,000 mewn ymateb i argyfwng clwy'r traed a'r genau. Roedd aelodau'r grŵp hwnnw yn rhan o ddirprwyaeth lwyddiannus i Fwrdd Croeso Cymru. Sicrhawyd tri chwarter miliwn ar gyfer Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy gyda'r Porth i Gymru.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gweithio'n frwdfrydig iawn gyda'r Eisteddfod ac wedi cyd-ariannu swydd Prif Weithredwr newydd a fydd yn datblygu'r Eisteddfod.
- Mae gan y Cyngor gynlluniau i gadw'r Capel yn Stryd y Castell a'i defnyddio fel canolfan ddiwylliannol a bydd llyfrgell newydd yno hefyd a fydd yn rhan o ffrwd ddysgu Sir Ddinbych sy'n gysylltiedig â phob llyfrgell yn y Sir.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu tair dogfen strategol sy'n allweddol i ddatblygu eu cyfleusterau twristiaeth ddiwylliannol a hamdden ac mae projectau a gwasanaethau

amrywiol eraill yn Sir Ddinbych a ddatblygwyd gyda Llangollen fel rhan o Sir Ddinbych. Byddai symud Llangollen o Sir Ddinbych yn golygu gorfod rhoi'r gorau i'r cynlluniau a'r strategaethau hyn a dechrau eto. Mae'r Cyngor erioed wedi gwerthfawrogi pwysigrwydd Llangollen a'r hyn sy'n digwydd yno ac erioed wedi gwneud datblygiadau yn y Dref fel rhan o Sir Ddinbych.

- Mae'r Cyngor yn cefnogi mudiadau ieuenctid yng nghefn gwlad, yn arbennig y Ffermwyr Ifanc. Yn anffodus, nid yw hynny'n digwydd yn Wrecsam lle y byddai pobl ifanc yng nghefn gwlad ar eu colled. Mae Llangollen yn ganolbwynt ar gyfer gweithgaredd ieuenctid.
- Mae gan Sir Ddinbych ei Gonsortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCET) ei hun ar waith a fydd yn gofalu am ariannu a chymhwyso addysg ôl-16 ledled y sir. Mae hyn wedi achosi i'r partneriaethau a grëwyd gan Sir Ddinbych gydweithio o ran y ddarpariaeth addysg breifat, gyhoeddus ac addysg bellach o fewn y sir, felly mae wedi cysylltu'r tri pheth hynny ar gyfer y ddarpariaeth hon ac wedi sicrhau bod y ddarpariaeth yn digwydd yn gyfartal ac yn deg ledled y sir.
- O fewn Sir Ddinbych mae un Ffederasiwn Penaethiaid sy'n caniatáu i lawer o waith partneriaeth ddigwydd rhwng y penaethiaid, a swyddogion y cyngor sir ac aelodau'r cyngor sir wrth lunio'r strategaeth a'r polisi a fabwysiedir ledled y sir.
- Cysylltir pob ysgol yn Sir Ddinbych gan lwybrau dau fegabit yr eiliad ac yna fe'u cysylltir â chanolbwynt sy'n rhoi mynediad iddynt i'r Rhyngrwyd. Sir Ddinbych yw'r unig sir yng Nghymru sydd â'r dechnoleg hon a rhydd fantais i'r Sir o ran y gyllideb a ddyrennir yn awr ac yn y dyfodol agos gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cynyddu capasiti'r cysylltiad hwnnw.
- Mae'r rheini sy'n gysylltiedig â'r system addysg o fewn Sir Ddinbych wedi mynegi eu dymuniad i aros yn Sir Ddinbych. Mae'r ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd wedi mynegi eu bod yn dymuno aros lle y maent. Mae cyrff llywodraethol yr ysgolion hynny hefyd wedi mynegi'r dymuniad hwnnw. Ni fyddai gan y system addysg yn Sir Ddinbych, yn arbennig Llangollen, ddim i'w hennill drwy gael ei symud ond efallai y byddai ganddi lawer i'w golli.
- Mae sefyllfa'r Cyngor wedi newid o ran paredd rhwng gwariant ac asesiad gwariant safonol ers cyhoeddi adroddiad Rita Hale. Mae Cymru gyfan yn gweithio yn awr ar y cyfrifiad diwygiedig o'r asesiad gwariant safonol. Eleni mae ychydig yn llai hael ar gyfer Sir Ddinbych, yn sicr o gymharu â rhagamcanion yn Rita Hale. Y flwyddyn gymhariaeth oedd un o flynyddoedd olaf Sir Ddinbych mewn dyled. Nid yw'r Cyngor bellach mewn dyled, nid ydynt bellach yn gorwario ac maent ar fin pennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf sy'n golygu y gallant wario hyd at eu hasesiadau gwariant safonol. Mae perthnasedd hynny o ran Adroddiad Rita Hale yn awgrymu bod llawer mwy o baredd yn awr rhwng gwariant y Cyngor a'r asesiad gwariant safonol.
- Mae problemau gwirioneddol o ran demograffeg yn Sir Ddinbych, gwasgariad anghyson y boblogaeth yn arbennig felly, gyda 53 y cant yn byw yn yr ardal arfordirol o bum milltir. Byddai hynny'n cynyddu i 57 y cant pe bai Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn cael eu trosglwyddo i Wrecsam. Byddai hyn yn andwyol i weddill Sir Ddinbych ac felly yn groes i un o feini prawf y Comisiwn yn yr ystyr na ddylai unrhyw newid fod yn anfanteisiol i weddill Sir Ddinbych.
- Mae'r anawsterau tymor canolig sy'n deillio o drosglwyddiad yn codi o ddiffyg arbedion maint ond yr anawsterau tymor hir yw'r materion demograffig hyn. Un enghraifft yw gwasanaethau cymdeithasol personol, lle mae gan y cyngor bum pennawd cyllideb. Ni fydd y trosglwyddiad yn effeithio ar wariant y Cyngor er y bydd yn effeithio ar eu hincwm gan greu problemau tymor canolig a thymor hir. O ran gwasanaethau rheng flaen mae gan Sir

Ddinbych drefniant yn y Gogledd a threfniant yn y De. Gellir newid rhai agweddau ar y trefniant hwnnw yn sydyn i leihau costau, ond bydd elfen benodol o reoli timau a'u trefnu na ellir ei lleihau oherwydd y trefniant a bydd y gostyngiad o chwech y cant mewn incwm yn effeithio'n wirioneddol ar hynny yn y tymor canolig.

- Meysydd eraill yw cynllunio strategol a darparu gwasanaethau yn yr un ardal. Unwaith eto, gellir gwneud addasiadau ond nid yn y tymor canolig. Creant broblemau eithaf dramatig i'r Cyngor yn y tymor hir oherwydd y ddemograffeg ac oherwydd y problemau gyda'r cartrefi preswyl a'r math o swyddi sy'n bodoli ym maes cynllunio strategol, sydd eu hangen o hyd er gwaethaf maint Sir Ddinbych.
- Mae gan Gyngor Sir Ddinbych bolisi cydraddoldeb wedi ei ddatganoli; mae pedair canolfan ddinesig yn y Sir. Mae canolfannau dinesig ym Mhrestatyn a'r Rhyl ar hyd yr arfordir a hefyd yn Ninbych a Rhuthun. Byddai'r newid demograffig sy'n deillio o drosglwyddiad yn golygu y byddai gan y Cyngor ddwy ganolfan ddeheuol a fyddai'n golygu llawer o amser teithio ychwanegol a chryn ymdrech ar ran y swyddogion ac ar ran yr aelodau. Ni fyddai'r Cyngor yn gallu newid y sefyllfa hon gan na fyddai'n ddichonadwy yn ariannol i werthu adeiladu'r ganolfan ddinesig yn y de a symud i'r gogledd.
- Mae'r Cyngor yn amcangyfrif mai'r gwahaniaeth tymor byr i dymor canolig yn ôl eu cyfrifiad hwy yw £⅓ miliwn neu ychydig yn fwy. Gwnaethpwyd rhai ymdrechion i amcangyfrif faint y gellid lleihau hynny yn y tymor hir ac yn amlwg mae rhai gostyngiadau y gellid eu gwneud. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn hawdd i'w hamcangyfrif, ni fyddant bob amser yn hawdd i'w cyflawni, a theimlir y bydd y rhan o Sir Ddinbych a fyddai'n weddill, pe bai'r Comisiwn yn trosglwyddo'r ardal hon allan o'r sir, yn dioddef.
- Mae Sir Ddinbych yn llwyddo yn yr holl brofion a osodir gan y Comisiwn. Darpara wasanaethau cyfleus ac effeithiol ledled y sir. Nid yw'r trefniant presennol yn rhannu aneddiadau. Gellir nodi'r ffin bresennol a byddai symud Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl o Sir Ddinbych yn cael effaith andwyol ar weddill y sir. Mae Sir Ddinbych yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau i'r dref ac ni phrofant, fel awdurdod, unrhyw anhawster wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn. Nid oes unrhyw gostau arbennig o ran cyflwyno gwasanaethau i Langollen nad ydynt yn wir hefyd ar gyfer ardaloedd gwledig eraill.
- Mae Sir Ddinbych wedi bwrw ati'n dda o ran ei rhaglen Amcan 1 ac wedi sefydlu partneriaeth strategol ar gyfer Amcan 1. Cymerodd y gwaith hwn dair blynedd a bellach mae'n cynhyrchu canlyniadau da. Yn ddiau, bydd creu partneriaeth arall gydag unrhyw awdurdod arall yn achosi oedi sylweddol wrth ddatblygu projectau yn Llangollen. Mae partneriaeth Sir Ddinbych yn arwain y partneriaethau lleol eraill yng Nghymru wrth gyflwyno projectau, cynlluniau cymorth busnes, grantiau i fusnesau, yn ogystal â chynlluniau twristiaeth a marchnata newydd o bwys sy'n cael eu gweithredu yn awr yn Llangollen a gweddill Sir Ddinbych. Mae Sir Ddinbych yn gweithio ar ei rhaglenni Ewropeaidd ar gyfer 2006. Mae strwythurau tymor hir ar waith y mae Sir Ddinbych wedi buddsoddi llawer o amser, adnoddau ac egni ynddynt.

5.5 Gwnaeth **Mr I Miller, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych** sawl pwynt ysgrifenedig ynglŷn â tystiolaeth a oedd yn rhoi argraff gamarweiniol yn ei farn ef, a gyflwynwyd yng Nghyfarfod Cyhoeddus y Comisiwn:

Yr awgrym oedd bod yn rhaid i drigolion Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl deithio i'r Rhyl er mwyn cael gwasanaethau gan y Cyngor a hefyd na wneir penderfyniadau sy'n effeithio ar Langollen a Llandysilio-yn-Iâl yn lleol. Yn ei farn ef, roedd y sefyllfa wirioneddol fel a ganlyn:

- Gall trigolion gysylltu â swyddogion y cyngor dros y ffôn am ddim yn y Siop Un Cam.
- Cynhelir cyfarfodydd cabinet o'r Cyngor yn Llangollen bob dau fis. Mae'r cyfarfodydd hyn yn agored i'r cyhoedd a'r wasg.
- Cynhelir cyfarfodydd llawn o'r Cyngor yn Rhuthun nid yn y Rhyl. Mae Llangollen yn agosach nag y mae'r Rhyl i Ruthun. Felly, cymerir penderfyniadau yn agosach i Langollen nag i'r Rhyl.
- Er nad yw Pwyllgorau'r Cyngor yn cyfarfod yn Llangollen ni chynhelir pob un yn y Rhyl. Cynhelir nifer fawr yn Rhuthun.
- Mae staff ar gael gan y Cyngor ar gyfer gwasanaethau sy'n galw am gysylltu'n bersonol â thrigolion Llangollen yn eu cartrefi. Mae gwasanaethau lle mae'n rhaid i unigolion deithio i swyddfeydd y cyngor yn wasanaethau arbenigol sydd ond yn effeithio ar nifer fach o'r boblogaeth.

O ran y pwynt a godwyd ynghylch toriadau yn y gwasanaethau a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych nododd, gan fod y Byrddau Iechyd Lleol arfaethedig i'w seilio ar ffiniau awdurdodau lleol, yna pe cedwid y ffin bresennol y byddai meddygon teulu Llangollen yn dod o dan Fwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych. Bydd y Byrddau yn comisiynu gwasanaethau iechyd i bobl sy'n byw ymhob ardal awdurdod lleol. Mae'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl o Ysbyty Maelor Wrecsam yn debygol o barhau tra bydd Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer ardaloedd eraill fel Gwynedd yn comisiynu gwasanaethau hefyd o'r Ysbyty hwn.

5.6 Gwnaeth **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** y pwyntiau canlynol mewn ymateb i Gynigion Drafft y Comisiwn:

- Byddai'r costau gweinyddu cychwynnol i'r ddau Gyngor sy'n gysylltiedig â'r newid arfaethedig i'r ffin yn fach, yn rhai tymor byr a byddent yn cael eu gwrthbwyso yn y tymor canolig gan arbedion maint. Ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau fel cynnal a chadw priffyrdd a gwasanaethau cymdeithasol pe bai ffin yn newid.
- Roedd sawl un a wnaeth sylw i'r Comisiwn o'r farn bod Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn dioddef problemau gyda gwasanaethau llywodraeth leol a chyfleusterau a digwyddiadau chwaraeon Sirol oherwydd eu pellter oddi wrth swyddfeydd y Cyngor i'r gogledd o Fwlch yr Oernant.
- Nid oes unrhyw reswm, pe bai'r ffin yn newid, pam na allai'r Gwasanaethau i Ieuenctid yng Nghorwen barhau i fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau yn Llangollen drwy gytundeb, pe bai Sir Ddinbych yn teimlo bod hynny'n briodol.
- Ni chadarnhawyd yr honiad bod gan Llangollen fwy o gysylltiad â Sir Ddinbych na Wrecsam. Mae gan Langollen lawer o gysylltiad ag ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o safbwynt twristiaeth.
- Mae cysylltiadau hysbys cryf rhwng Llangollen ac ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn Wrecsam, yn arbennig y rheini o fewn rhan ddeheuol Wrecsam. Yn ogystal ag ardaloedd fel Dyffryn Ceiriog, mae ardaloedd mwy poblog eraill yn Wrecsam lle mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn gryf iawn, sef Rhosllannerchrugog. Mae'n werth nodi bod Ysgol Uwchradd Gymraeg newydd Wrecsam, Ysgol Morgan Llwyd, yn cael ei chydnabod fel un o'r cyfleusterau gorau yng Nghymru gyfan ar gyfer addysg drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 18 oed.
- Ni ddylid diystyru pa mor arwyddocaol yw lleoliad gwaith yr unigolion sy'n teithio i'r gwaith o Langollen. Teithiant i ardal Wrecsam.

- Ymddengys fod y cyfeiriad at gysylltiadau rhwng Llangollen a'r trefi ar ffin Swydd Amwythig, yn anwybyddu'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod y trefi ar ffin Swydd Amwythig, fel Croesoswallt, yn dibynnu ar Wrecsam yn yr un modd â Llangollen.
- O ran daearyddiaeth a thrafnidiaeth mae'n glir mai gyda Wrecsam y mae'r cyswllt pennaf yn hytrach na rhannau gogleddol Sir Ddinbych. Yn wir, gellid dweud mai prin yw'r cysylltiadau â'r rhan honno o Sir Ddinbych i'r gogledd o Fwlch yr Oernant, ond bod cysylltiadau â'r rhan fwyaf o Fwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Nid yw'r honiad bod pump ysgol gynradd fechan yn ardal Llangollen Wledig wedi eu hysbysu ym mis Ebrill 2001 o fwriad Wrecsam i'w cau yn wir. At hynny, mae'r honiad y byddai lleoedd uwchradd dros ben yn Wrecsam yn cael eu llenwi gan blant o Langollen yn anghywir ac yn gamarweiniol.
- Mae'r honiad a'r argraff a roddwyd o ran y ddarpariaeth Chweched Dosbarth yn Wrecsam yn anghywir. Nid yw Wrecsam wedi cyfyngu addysg ôl-16 i Goleg Iâl fel yr awgrymwyd. Nid yw Wrecsam wedi cau unrhyw ddarpariaeth Chweched Dosbarth ac nid oes unrhyw sail o gwbl i'r honiad y byddai Chweched Dosbarth yn cael ei ddarparu yn Ninas Brân o dan gynlluniau Sir Ddinbych ond nid o dan rai Wrecsam.
- Ni dderbynnir yr awgrym y byddai opsiwn Ysgol Dinas Brân ar gyfer addysg ôl-16 yn cael ei ddileu o bosibl. Mae gan Wrecsam dair ysgol gydag addysg ôl-16 ac nid yw wedi cau unrhyw ddarpariaeth Chweched Dosbarth. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai Ysgol Dinas Brân yn cael ei thrin yn wahanol.
- Mae'r sylwadau a wnaed o ran yr arbedion posibl ym maes cludo plant i'r ysgol yn gamarweiniol. Gallai arbedion sylweddol gronni o ganlyniad i fabwysiadu ymagwedd "un awdurdod" tuag at gontractau. Mae'r Comisiwn yn derbyn bod y pellter a deithir gan ddisgyblion o Ysgol Dinas Brân i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhwng ysgolion a gweithgareddau Sirol yn achosi problem. Fodd bynnag, er ei fod yn derbyn y gellid datrys y broblem mae'n mynd yn ei flaen i wrthod y mater fel un nad yw'n bwysig, gan nodi'r rheswm bod yn rhaid i ddisgyblion mewn mannau eraill "ddioddef yr un problemau". Nid yw'r rhesymu hyn yn gredadwy pan gaiff ei ystyried o fewn cyd-destun pwrpas yr adroddiad h.y. ystyried beth sy'n effeithiol a chyfleus i Langollen a Llandysilio-yn-Iâl – nid i rannau eraill o Gymru.
- Noda'r adroddiad fod y trefniadau gweinyddu ac arian cyfatebol ar gyfer projectau Amcan 1 eisoes ar waith o fewn Sir Ddinbych ac y byddai angen i Wrecsam eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, i ryw raddau byddai'r trefniadau yn cael eu trosglwyddo gyda'r Cymunedau. Mae'n hollol amhriodol cymryd yn ganiataol y byddai hyn yn cael unrhyw effaith andwyol ar Langollen.
- Problem fach yw'r awgrym y gallai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wynebu costau gweinyddol ychwanegol yn gysylltiedig ag Amcan 1. Eisoes mae gan Wrecsam Swyddog Ewropeaidd a sawl swyddog project sy'n ymwneud ag Amcan 3, LEADER plus a Phroject Trefol Ewropeaidd II ac ati. Mae gan y Fwrdeistref Sirol wasanaeth Ewropeaidd cryf a chynhwysfawr a fyddai'n gallu integreiddio a rheoli gwaith project sy'n gysylltiedig â statws Amcan 1 Llangollen heb unrhyw anhawster.
- Daw cymhwyster Amcan 1 i ben yn 2006, felly mae'r mater yn un tymor byr ac ni ddylai ddrysu'r farn ar yr hyn sydd er budd tymor hir i Langollen a Llandysilio-yn-Iâl.
- Nid yw'r pwynt ynghylch Partneriaeth Ardal Dyffryn Dyfrdwy yn ymddangos fel pe bai'n dadlau o blaid cadw Llangollen o fewn Sir Ddinbych. Mae gan Wrecsam swyddogaeth datblygu economaidd fwy sylweddol na Chyngor Sir Ddinbych ac mae mewn gwirionedd

yn cynnal Menter Trefi Bach a Phentrefi sydd bellach yn ymestyn i'r ffin â Llangollen gan gynnwys Llangollen Wledig.

- Mae cynllun ar y cyd o'r enw Ardal Twf Twristiaeth Ranbarthol Wrecsam a Dyffryn Dyfrdwy (gan gynnwys Llangollen) yn bodoli ar gyfer datblygu Llangollen a Wrecsam a gefnogir gan Fwrdd Croeso Cymru. Mae hon yn enghraifft arall o'r cysylltiadau twristiaeth ac economaidd cryf rhwng Wrecsam a Llangollen ac yn nodi un ardal farchnadol gydlynol fel "Wrecsam a Dyffryn Dyfrdwy".
- Wrth ystyried y byddai newid yn y ffin yn effeithio ar gynigion Sir Ddinbych ar gyfer Partneriaeth Ardal ar Ddyffryn Dyfrdwy, mae'n rhaid ei osod o fewn cyd-destun y bartneriaeth rhwng Wrecsam a Llangollen y cyfeiriwyd ati uchod. Nid oes unrhyw reswm ychwaith pam na allai Partneriaeth Ardal trawsffiniol weithio. Mae'r honiad y gallai gael effaith economaidd andwyol ar ddatblygiad yr ardal yn ddi-sail.
- Mae'n werth nodi bod y Bwrdd Croeso yn ddiweddar wedi cytuno i uno Llangollen a Wrecsam o dan y fenter Ardal Twf Twristiaeth Ranbarthol ar gyfer hyrwyddo ar y cyd a chyd-fuddsoddi.
- Mae'r awgrym y byddai costau cychwynnol i Sir Ddinbych a Wrecsam i dalu am newidiadau i lenyddiaeth yr un mor annilys gan fod y llenyddiaeth yn cael ei chynhyrchu yn flynyddol at ddiben marchnata a'i bod i raddau helaeth yn hyrwyddo'r "Gororau" y mae Wrecsam a Llangollen yn rhan ohono.
- Cyfeirir at y ffaith bod trigolion Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn defnyddio cyfleusterau hamdden Wrecsam oherwydd eu bod yn agos ac oherwydd y gost. Awgryma'r adroddiad nad yw pa awdurdod sy'n rhedeg y cyfleusterau (presennol) yn ystyriaeth. Yn sict mae hyn yn methu'r pwynt. Nid yw Sir Ddinbych wedi darparu cyfleusterau yn yr ardal ond mae Wrecsam wedi gwneud hynny. Yn ogystal, "sybsideiddir" cyfleusterau hamdden yn Wrecsam a gallai hyn godi mater tegwch gyda thrigolion Llangollen yn talu am gyfleusterau na ddefnyddiant, tra'n defnyddio cyfleusterau a sybsideiddir yn Wrecsam.
- Ystyrir bod yr awgrym y byddai grantiau TGCh i lyfrgelloedd yn cael eu heffeithio gan newid i'r ffin yn anghywir.
- O ran Corwen, mae newidiadau i ffiniau yn anochel yn arwain at drosglwyddo staff ac adnoddau eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ailystyried materion darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r un mor bosibl y gallai arolwg gan Sir Ddinbych yn dilyn newid i'r ffin, arwain at welliannau i wasanaethau yng Nghorwen. Mae Sir Ddinbych wedi dadlau nad yw'r pellter i Langollen o Ogledd Sir Ddinbych yn broblem o ran cyflwyno gwasanaethau. Felly, ni ddylai fod yn broblem i Gorwen.
- Os bydd Llandysilio-yn-Iâl a Llangollen yn aros yn Sir Ddinbych, bydd yn rhaid i'r Grŵp Iechyd Lleol weithio gyda dau Awdurdod Lleol – mewn perthynas â Wrecsam gyfan a rhan fechan o ardal Sir Ddinbych. Bydd hyn yn rhwystr difrifol i'r agenda strategol a gysylltir ag integreiddio a chydlynu gofal Cymdeithasol ac Iechyd.
- Mae'r Heddlu, y Llys a'r Gwasanaethau Iechyd yn ystyried Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl fel lleoedd o fewn ardal Wrecsam sy'n adlewyrchu'r cysylltiadau naturiol sy'n codi bob dydd.
- O ran materion troseddau ac anrhefn, mae'r honiad "na chyflawnir y swyddogaethau hyn gan yr awdurdodau llywodraeth leol" yn dystiolaeth o farn anhyddysg ac nid yw'n ystyried rhagarweiniad y Cyngor yn Atodiad 2, tudalen 5, paragraff (e)(i) i'r adroddiad ar y cynigion drafft. Partneriaethau Trosedd ac Anhrefn Lleol , y mae awdurdodau lleol yn chwaraewyr allweddol ynddynt, yw'r cyrff statudol ar gyfer cydlynu'r gwaith o leihau

trosedd. Golyga'r trefniadau presennol fod "ffawtlin" yn yr ardal naturiol ar gyfer delio â materion troseddau ac anrhefn.

5.7 Mewn sylw pellach gwnaeth **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** y pwyntiau canlynol er mwyn ymdrin â'r hyn a oedd yn eu barn hwy yn anghywir ac yn gamliwio a wnaed yng Nghyfarfod Cyhoeddus y Comisiwn yn Neuadd y Dref Llangollen ar 30 Ionawr 2002:

- Rhoddwyd yr argraff yn y Cyfarfod bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn awdurdod gwbl drefol. Mewn gwirionedd mae dros 75% o ardal yr awdurdod yn wledig.
- Awgrymwyd bod Cyngor Wrecsam yn ffafrio canolfan y dref ar draul ardaloedd pellennig. Mewn gwirionedd, buddsoddodd y Cyngor yn sylweddol yn yr ardaloedd gwledig a'r pentrefi yn y Fwrdeistref Sirol. Rhoddodd gymorth hefyd i ffermwyr yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau drwy sefydlu marchnad i ffermwyr yng nghanol y dref. Sefydlodd Rhaglen Datblygu Gwledig y Cyngor gynlluniau penodol mewn pentrefi gwledig. Buddsoddwyd llawer a bu llawer o weithgarwch adfywio mewn ardaloedd fel Rhosllannerchrugog a Chefn Mawr. Bu'r Cyngor yn gweithio'n ddibaid ers y cychwyn i adfywio ardaloedd o'r fath.
- Beirniadwyd Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor yn ystod y Cyfarfod Cyhoeddus. Gwrthbrofa'r Cyngor hyn gan ystyried bod enw da a'r modd y cyflwynir ei Gwasanaeth Cefn Gwlad o'r safon uchaf. Mae'r Cyngor hefyd yn arwain Project Cefn Gwlad ar y Cyd (gan gynnwys Sir Ddinbych) i ddarparu manylion ar-lein i gwsmeriaid am gyfleusterau cefn gwlad.
- Gwnaed cyfeiriad at yr amhariad a fyddai'n digwydd mewn perthynas â chynlluniau Amcan 1 pe bai newid. Fodd bynnag, gall y Cyngor reoli datblygu economaidd a phrojectau Ewropeaidd oherwydd bod ganddynt Swyddogion Ewropeaidd a Datblygu Gwledig penodedig o fewn y Tîm Datblygu Economaidd ac mae eu profiad a'u perfformiad heb eu hail.
- Cyfeiriwyd at ddiwylliant Cymraeg Llangollen gan nodi ei fod yn fwy cydnaws â Sir Ddinbych na Wrecsam. Fodd bynnag, mae hyn yn anwybyddu diwylliant a threftadaeth Gymraeg Wrecsam a'r gefnogaeth a roddir i'r Cyngor gan Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg. Gwrthbrofodd y Cyngor yr honiad hefyd nad oedd deunydd Cymraeg ar gael yn llyfrgelloedd Wrecsam. Mae gan bob llyfrgell yn y Fwrdeistref Sirol ddeunydd Cymraeg gydag rhestr gynhwysfawr o deitlau Cymraeg yn cael eu prynu bob blwyddyn.
- Teimlai'r Cyngor fod beirniadaeth anuniongyrchol anghyfiawn yn cael ei rhoi i'w Gwasanaeth Addysg gan gynnwys datganiadau anghywir am ysgolion yn cau. Nid oes unrhyw fwriad i uno na chau unrhyw ysgolion cynradd mewn ardaloedd gwledig, er bod gan bob awdurdod addysg ddyletswydd i gynnal arolygon rheolaidd o'r ddarpariaeth a'r ffordd y rheolir y lleoedd ysgol o dan arolwg. Cafodd llawer o ysgolion cyngor mewn ardaloedd gwledig gyd-raglenni ailfodelu helaeth yn costio miliynau o bunnoedd.
- Awgrymwyd nad oes dosbarthiadau'r chweched yn Wrecsam oherwydd Coleg Iâl. Mewn gwirionedd mae dosbarthiadau'r chweched yn ysgol Rhiwabon, Ysgol Maelor, Llannerch Banna ac Ysgol Morgan Llwyd.
- Ni fyddai statws dinas, pe'i caniateid, yn newid cymeriad Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac yn arwain at wasgariad trefol fel yr honnwyd yn y Cyfarfod.
- Honnwyd na fyddai'r system biniau ar olwynion a weithredir gan Wrecsam yn gweddu i Langollen oherwydd nodweddion ei thai. Fodd bynnag, nid yw'r nodweddion yn unigryw i Langollen ac fe'u ceir mewn ardaloedd fel Wrecsam lle mae'r system biniau ar olwynion yn gweithredu'n dda. Mae arolwg wedi dangos bod y gwasanaeth biniau ar olwynion yn

cael ei werthfawrogi mwy gan drigolion sy'n ei ddefnyddio na'r gwasanaeth bagiau bin sy'n bodoli mewn mannau eraill.

- Ymddangosai fod peth dryswch ynghylch y sefyllfa o ran materion iechyd. Bydd y Byrddau Iechyd Lleol a gaiff eu sefydlu'n fuan yn gyfrifol am sefydlu gofal iechyd. Dëllir fod Meddygfa Llangollen wedi dewis dod o dan Wrecsam.

5.8 Teimlai **Cyngor Cymuned Llandysilio-yn-Iâl** fod y gwasanaethau a ddarperir i'w Cymuned gan Gyngor Sir Ddinbych yn ddigonol. Ni allent weld unrhyw fudd mewn trosglwyddo eu cymuned i Wrecsam.

5.9 Cefnogodd **Cyngor Cymuned Dinbych, Cyngor Cymuned Corwen, Cyngor Cymuned Llandyrnog, Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl, Cyngor Tref Rhuddlan, Cyngor Cymuned Dyserth, Cyngor Cymuned Henllan, Cyngor Cymuned Rhuthun, Cyngor Tref Llanelwy, Cyngor Cymuned Tremeirchion Cwm a'r Waen, Cyngor Cymuned Llanrhaeadr Y.C., Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog a Chyngor Cymuned Bodfari** gynigion Drafft y Comisiwn. Yn eu barn hwy byddai trosglwyddo Llangollen i Wrecsam yn golygu colli cymuned werthfawr yn Sir Ddinbych, gan arwain at roi mwy o faich ariannol ar weddill Sir Ddinbych a chreu ansicrwydd ac ansefydlogrwydd.

5.10 Gwnaeth **Martyn Jones AS** y pwyntiau canlynol:

- dim ond o Wrecsam y gellir cyflwyno llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Ni all y gost i gyngor Sir Ddinbych o ddarparu gwasanaethau o bellter dros dir anodd, dros Fwlch yr Oernant, yn economaidd nac yn fwy cynnil na thalu'r Dreth Gyngor yn yr ardal honno;
- byddai'n well lleoli aneddiadau preswyl ar wahân mewn un brif ardal;
- byddai ffin ddaearyddol Bwlch yr Oernant yn nodwedd ffisegol glir ac amlwg rhwng Llangollen a Sir Ddinbych;
- o gofio bod adroddiad y Comisiwn yn awgrymu na fyddai effaith andwyol iawn ar Sir Ddinbych, yna pe bai'r cynnig drafft yn cael ei dderbyn yn y pen draw, byddai'n benderfyniad annerbyniol.
- mae Clerc yr Ynadon, y meddygon lleol, y cyfreithwyr lleol, yr Aelod Seneddol dros yr ardal, yr Aelod Cynulliad dros yr ardal, a'r Aelod Cynulliad dros Wrecsam oll o blaid trosglwyddo Llangollen i Wrecsam;
- dangosodd astudiaeth annibynnol y Comisiwn na fyddai braidd dim anfantais, os o gwbl, i'r naill gyngor na'r llall pe bai'r newid yn digwydd.

5.11 Cefnogodd **Gareth Thomas AS** Gynigion Drafft y Comisiwn. Teimlai nad oedd manteision y newid arfaethedig yn drech na manteision y trefniadau presennol o gofio'r gost i'r awdurdod lleol o weinyddu'r newid. Roedd pwysigrwydd y dystiolaeth yn cyfiawnhau cadw'r ffin bresennol, er nad hyn oedd yr ateb mwyaf hwylus. Teimlai nad oedd y rhai a oedd o blaid newid y ffin wedi cyflwyno dadl argyhoeddiadol a fyddai'n cyfiawnhau'r amhariad y byddai newid o'r fath yn ei achosi.

5.12 Cefnogodd **Chris Ruane AS**, Gynigion Drafft y Comisiwn. Teimlai na chyflwynwyd unrhyw ddadleuon argyhoeddiadol o blaid newid y ffin a bod llawer o dystiolaeth wedi ei chyflwyno ar effeithiau andwyol newid o'r fath ar Sir Ddinbych a bod yr effeithiau hynny wedi eu mynegi'n gryf.

5.13 Dywedodd **Dr John Marek AC** ei fod yn rhoi gwerth uchel ar ddymuniadau'r bobl leol yr effeithir arnynt. Credai y dylid cynnal pleidlais arall gan nad oedd rhai wedi ystyried y bleidlais flaenorol yn un bwysig neu arwyddocaol. Teimlai, pe bai pleidlais arall yn cael ei chynnal lle y byddai'r canlyniad yn gyfrwymol, y byddai'n ysgogi pob pleidleisiwr i gymryd rhan. Dewis arall fyddai trefnu cyfarfod cyhoeddus lle y gallai pobl leol roi tystiolaeth lafar. Yn ei farn ef nid oedd cost unrhyw newid yn berthnasol gan ei fod yn teimlo ei bod yn bwysicach i wneud yr hyn a oedd yn iawn i Langollen. Credai y byddai manteision sylweddol i Langollen pe bai'n cael ei throsglwyddo i Wrecsam gan fod y ddwy ardal wedi eu cysylltu'n economaidd ac y byddai ardal Llangollen sy'n dwristaidd yn y bôn yn gweddu'n dda i ardal ddiwydiannol a masnachol Wrecsam.

5.14 Gwnaeth **Karen Sinclair AC** y pwyntiau canlynol ynghylch Cynigion Drafft y Comisiwn:

- Byddai Sir Ddinbych yn ddichonadwy heb Langollen a byddai'n annhebyg o wynebu unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor o ganlyniad i newid y ffin;
- Mae'r ffin bresennol yn Nhrefor yn doriad naturiol ac yn flaenorol roedd pentrefi Trefor, Froncysyllte a Garth yn adnabyddus ar y cyd o fewn hen ranbarth Glyndŵr fel Cymuned Llangollen Wledig, a oedd hefyd yn cynnwys pentrefannau Llandysilio-yn-Iâl a Phentredwr.
- Mae'r cysylltiad a nodwyd rhwng Llangollen a Chorwen yn gysylltiad newydd a grëwyd gan y Cyngor Sir Ddinbych newydd yn syml er mwyn cyflwyno gwasanaethau'r Siop Un Cam. Cyn 1974 roedd Corwen o fewn dalgylch hen Gyngor Meirionnydd ac nid oedd ganddi lawer o gysylltiad ariannol, os o gwbl, â Llangollen. Ni fyddai trosglwyddo Llangollen i Wrecsam yn anfanteisiol i Gorwen.
- Nid yw'r Siop Un Cam wedi gwneud llawer i leddfu unigedd oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau yn ardal Llangollen ac roedd nifer yr ymholiadau a'r cwynion a anfonwyd drwy ei swyddfa yn benodol am broblemau o fewn yr ardal yn cadarnhau hyn.
- Daw canran mawr o'r disgyblion sy'n mynychu Dinas Brân o Sir gyffiniol Wrecsam. Pe bai Wrecsam, gan fod y cofrestri yn ysgolion uwchradd Rhiwabon a Rhos yn lleihau, yn ail-lunio ei hardaloedd dalgylch yn seiliedig ar ysgolion agosaf yn hytrach nag ar ardaloedd teithio i'r ysgol traddodiadol, byddai Ysgolion Llangollen yn cael eu difetha;
- Mae Cyngor Wrecsam yr un mor ymrwymedig i ddarparu Addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg â Sir Ddinbych.
- Nid yw'r sefyllfa o ran Cofrestrwyr (genedigaethau, priodasau a marwolaethau) yn drefniant boddhaol yn enwedig mewn tywydd garw pan fydd posibilrwydd mawr bod ffordd Bwlch yr Oernant ar gau. Hefyd nid yw'r ffaith bod Llangollen yn gorfod dibynnu ar gofrestrydd "teithiol" yn foddhaol.
- Bydd y newidiadau strwythurol arfaethedig o fewn y GIG yn gwaethygu'r problemau yn Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl. Bydd y Grwpiau Iechyd Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol newydd yn seiliedig ar ffiniau'r sir. Mae cynlluniau'r Cynulliad Cenedlaethol i ddiwygio yn mynd rhagddynt yn dda a dadleuodd fod dyletswydd ar y Comisiwn i roi ystyriaeth i'r diwygiadau hyn.
- O ran trosglwyddo Amcan 1, ni fyddai Wrecsam yn cael unrhyw broblem i weithio gyda'r Cronfeydd Strwythurol hyn er gwelliant Llangollen.
- Byddai cyfiawnhad dros gostau cychwynnol newid y ffin o gofio rhwyddineb cyflwyno gwasanaethau yn y tymor hir.

5.15 Mewn sylw pellach mynegodd **Karen Sinclair AC** bryder ynghylch Cyfarfod Cyhoeddus y Comisiwn a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref Llangollen ar 30 Ionawr 2002. Dywedodd ei bod wedi ei hysbysu bod swyddogion ac aelodau o Gyngor Sir Ddinbych wedi mynd â dwy awr gyntaf y cyfarfod gan adael dim ond yr awr olaf yn rhydd i bobl leol roi tystiolaeth. Roedd fformat y cyfarfod wedi codi ofn ar rai o'r trigolion a theimlent na allent roi tystiolaeth mewn i feicroffon o flaen neuadd lawn o bobl.

5.16 Dywedodd **Eleanor Burnham AC** ei bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod canfyddiadau Cynigion Drafft y Comisiwn wedi eu croesawu gan Gyngor Sir Ddinbych a werthfawrogodd yr arolwg fel un â chanlyniad cadarnhaol.

5.17 Dywedodd **Alun Pugh AC** ei fod yn cytuno'n llwyr â chasgliadau Cyngor Sir Ddinbych a chredai y byddai yr amhariad a achosir o ganlyniad i ad-drefnu yn sgîl newid y ffin yn effeithio'n andwyol ar ei etholwyr yn ardal Rhuthun.

5.18 Dywedodd **Prif Gwnstabl R Brunstrom, Heddlu Gogledd Cymru**, gan ysgrifennu yn rhinwedd ei swydd fel Prif Gwnstabl ac fel y cyfryw yn gyfrifol am staff gweithredol, fod gan Heddlu Gogledd Cymru bolisi o gydffinio â ffiniau awdurdodau lleol. Mae Llangollen yn eithriad i'r polisi hwn gan ei bod yn cael ei phlismona o'r tu allan i'w hardal awdurdod lleol. Dyma'r unig eithriad o'i fath o fewn Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Dywedodd mai ei fwriad oedd y dylai'r eithriad hwn gael ei gywiro ar ôl arolwg y Comisiwn beth bynnag fo'r canlyniad. Nid oedd yn cytuno â'r ddadl bod Bwlch yr Oernant yn atal gwasanaeth digonol gan yr Isadran Ganolog a dywedodd y byddai Llangollen yn cael gwasanaeth heddlu boddhaol, gyda ffin yr heddlu yn cydffinio â ffin yr awdurdod lleol, beth bynnag fo canlyniad yr arolwg o'r ffin.

5.19 Gwnaeth **Pennaeth ysgol leol** y pwyntiau canlynol:

- Mae Sir Ddinbych newydd roi bloc dysgu o ansawdd uchel gyda thoiledau ac ystafelloedd dosbarth i'r ysgol ac addawyd y byddai hynny'n cael ei ymestyn i ddarparu 16 o ystafelloedd dosbarth, a fydd yn rhoi'r adeiladau y mae plant Llangollen a'r ardal yn eu haeddu.
- Darparodd Sir Ddinbych neuadd chwaraeon i'r ysgol sydd wedi galluogi'r ysgol i gael Gwobr Nôd Chwaraeon.
- Mae Sir Ddinbych wedi gwella cyfleusterau arlwyo'r ysgolion.
- Mae gan yr ysgol statws Nôd Rhyngwladol na fyddai'n bosibl heb ei chysylltiadau ag ECTARC a'r Eisteddfod Ryngwladol.
- Rhoddwyd swm mawr o arian i'r ysgol gan Sir Ddinbych i adeiladu ar y gwaith rhagorol sy'n mynd rhagddo yn yr ysgolion iau sy'n bwydo'r ysgol uwchradd. Fe'i penodwyd yn ysgol ddwyieithog a rhydd ddarpariaeth ddwyieithog lawn i blant lleol.

5.20 Gwnaeth un o G**yfarwyddwr Anweithredol Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych** y pwyntiau canlynol:

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn dymuno parhau â'r sefyllfa bresennol ac ni all weld unrhyw fantais yn sgîl newid y ffin. Ni ddylai fod unrhyw ffiniau wrth ystyried gofal iechyd da. Mewn perthynas â gofal iechyd eilaidd, mae pobl Llangollen, Dyffryn Dyfrdwy a'r Bala yn dibynnu ar Wrecsam a byddant yn parhau i wneud hynny. Nid yw creu tair ymddiriedolaeth

yng ngogledd Cymru wedi newid hynny. Felly, o safbwynt yr Ymddiriedolaeth nid oes rheswm dros newid. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cysylltiadau arbennig o dda gydag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych.

- Noda Cynigion Drafft y Comisiwn (tudalen 6, pwynt bwled rhif 9): "Darperir gofal iechyd aciwt i Langollen gan Ysbyty Maelor Wrecsam" – "Y teimlad yw y byddai meddygon teulu yn Llangollen o blaid darparu gofal iechyd eilaidd gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru…" Dylid ystyried terminoleg y datganiad hwn gan mai gofal iechyd "eilaidd" ar lafar gwlad yw gofal iechyd "aciwt". Roedd y cyfarwyddwr anweithredol yn siwr na fyddai meddygon teulu yn Llangollen yn cydnabod y darperir gofal iechyd eilaidd ar hyn o bryd gan Ogledd Ddwyrain Cymru yn hytrach na Chonwy a Dinbych.
- Ni fydd newid ffin yr awdurdod lleol o unrhyw fudd gan y bydd y gwaith o gomisiynu gofal iechyd yn nwylo grwpiau iechyd lleol ond byddant yn comisiynu o'r adnodd sy'n fwyaf priodol beth bynnag fo ffiniau'r awdurdodau lleol.

5.21 Gwnaeth **Prif Weithredwr ECTARC** y pwyntiau canlynol:

- Ers 1996 mae Cyngor Sir Ddinbych wedi darparu ECTARC â'r un gefnogaeth a ddarparwyd yn flaenorol gan Sir Clwyd. Heb y gefnogaeth hon ni fyddai ECTARC wedi parhau i weithredu fel cwmni.
- Mae ECTARC wedi gweithio'n agos gydag adrannau a staff arbenigol Sir Ddinbych i ddatblygu nifer o brosiectau rhyng-ranbarthol ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda swyddogion Sir Ddinbych i ddatblygu ystod o gynigion i fanteisio ar arian Amcan 1 a darparu ystod o wasanaethau yn canolbwyntio ar gyngor busnes, ieuenctid a hyfforddiant a hyfforddiant gydol oes ar gyfer ardal Dyffryn Dyfrdwy y sir.
- Byddai newid i awdurdod lleol cynhaliol yn golygu bod yn rhaid i ECTARC ail-greu ac ailddatblygu'r cysylltiadau arbennig hynny gydag adrannau a swyddogion awdurdod newydd a fyddai'n anochel yn arwain at oedi wrth wireddu llawer o'r projectau a'r cynigion ar gyfer Amcan 1 a Leader II sydd ar y gweill gan beryglu, yn sicr yn y tymor byr i'r tymor canolig, arian y rhaglen a rhagamcanion y cwmni. Byddai'n rhaid ailysgrifennu cynllun busnes ECTARC am y tair blynedd nesaf a'i newid yn sylweddol, yn arbennig mewn perthynas â'r prosiectau a'r cynigion hynny a gynllunnir ar gyfer De Sir Ddinbych yn gyffredinol a Dyffryn Dyfrdwy yn benodol.
- Gallai'r bwlch canlyniadol yn rhaglen waith ECTARC dros y ddwy neu dair blynedd nesaf fod â goblygiadau ariannol mawr a gellid peryglu dichonoldeb ECTARC i barhau mewn busnes yn ystod y cyfnod hwn yn ddifrifol.

5.22 Dywedodd **Swyddog Proffesiynol Iechyd ac un o drigolion Llangollen** y gallai Llangollen, pan ddiddymir yr awdurdod iechyd a sefydlu byrddau iechyd lleol i gomisiynu gofal iechyd, gael ei difreintio drwy fod yn rhan o Sir Ddinbych pan fo ei gofal iechyd yn cael ei gyflwyno gan Wrecsam a Sir y Fflint. Caiff y byrddau iechyd hyn eu creu o weithwyr personél gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd y siroedd y maent yn comisiynu ar eu cyfer, ac felly gwasanaethir Ysbyty Maelor gan y bwrdd iechyd a grëir o bersonél Wrecsam a Sir y Fflint. Os bydd Llangollen yn aros yn Sir Ddinbych bydd yn parhau i dderbyn gwasanaethau aciwt o Ysbyty Maelor ond ni fydd unrhyw ddylanwad ganddi ar ddatblygu'r gwasanaethau a ddarperir neu unrhyw gynrychioliad ar y bwrdd iechyd sy'n ei rheoli.

5.23 Dywedodd **dyn busnes lleol** fod ef a gweithwyr ei gwmni yn gwrthwynebu trosglwyddo Llangollen i Wrecsam. Dywedodd fod ei gwmni wedi elwa ar statws Amcan Un Llangollen ar ôl sicrhau arian a bod llwyddiant y Cwmni o ganlyniad i hyn yn ei dro wedi bod yn fanteisiol i'r gymuned. Teimlai na ddylid rhoi hyn yn y fantol drwy newid y ffin bresennol.

5.24 Roedd **Ysgrifennydd Cymdeithas Leol NASUWT** yn gwrthwynebu trosglwyddo Llangollen i Wrecsam. Fel Ysgrifennydd Negodi NASUWT ac aelod o Gydbwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych (DTJNC) teimlai y gallai roi ei barn ar waith yr awdurdod addysg lleol. Yn ei barn hi roeddent yn dderbyngar ac yn adeiladol ac am wneud gwelliannau gwirioneddol i amodau gwasanaeth ei haelodau. Nododd y byddai'n pryderu pe na bai ysgol Dinas Brân yn gallu elwa ar y negodiadau y bu DTJNC yn ymwneud â hwy i wella cyfleoedd addysgol disgyblion yn Sir Ddinbych. Fel cynrychiolydd trigain o aelodau NASUWT yn Ysgol Dinas Brân gobeithiai y byddai'n gallu parhau i weithio gyda Chyngor Sir Ddinbych.

5.25 Cefnogodd **cyn Bennaeth ysgol leol** y cynnig i drosglwyddo Llangollen i Wrecsam am y rhesymau canlynol:

- Darperir gwasanaethau plismona a'r Llys Ynadon o Wrecsam.
- Darperir gwasanaethau iechyd ac ambiwlans o Wrecsam.
- Marchnatir diwydiant twristiaeth Llangollen gan Fwrdd Croeso Cymru yn Wrecsam nid gan lyfryn Gororau Sir Ddinbych.
- Daw 70% o'r disgyblion yn Ysgol Dinas Brân o ysgolion Wrecsam. Darperir addysg bellach, addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysg uwchradd Gatholig ar gyfer yr ardal bron yn gyfan gwbl o Wrecsam. Mae costau uchel ynghlwm wrth weithgareddau ysgol a hyfforddi staff oherwydd y pellteroedd yn Sir Ddinbych.
- Rhoddir blaenoriaeth isel i atgyweirio ffyrdd, cynnal a chadw a chlirio eira yn Llangollen. Caiff sbwriel ei gludo i Wrecsam i'w waredu a chaiff y lori sbwriel ei chadw a'i gwasanaethu yn Wrecsam.
- Cynhwysir Llangollen yn etholaeth Seneddol De Clwyd sy'n gysylltiedig â Wrecsam nid Sir Ddinbych.
- Y cod ffôn ar gyfer Llangollen yw cod Wrecsam. Cyfeiriad post Llangollen yw Wrecsam. Cyflenwir dŵr gan Ddŵr Dyffryn Dyfrdwy a leolir yn Wrecsam.
- Mae gan lawer o bentrefi yn Wrecsam fel Cefnmawr, Acrefair a Llanarmon ynghyd â Llangollen Wledig gysylltiadau agos â Llangollen a Wrecsam ar gyfer siopa, adloniant a hamdden. Mae eglwysi Llangollen yn rhannu clerigwyr gydag eglwysi Wrecsam.
- Mae'r pellter o Langollen i Ddinbych, y Rhyl a Phrestatyn yn 24 o filltiroedd o leiaf ond dim ond 12 milltir i ffwrdd y mae Wrecsam. Golyga hyn fod y gost o ddarparu gwasanaethau i Langollen o Sir Ddinbych yn fwy nag y byddai pe bai Wrecsam yn eu darparu.

5.26 Gwnaeth sawl un o **drigolion Llangollen a'r ardaloedd cyfagos** y pwyntiau canlynol i gefnogi'r cynnig i drosglwyddo Llangollen o Sir Ddinbych i Wrecsam:

- Teimlir bod y gost o gyflwyno gwasanaethau i Dref Llangollen yn fater pwysig. O gofio lleoliad daearyddol a chysylltiadau trafnidiaeth Llangollen byddai'r gwasanaethau mwyaf cost effeithiol i drigolion yn cael eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

- Mae gan Langollen yn ddaearyddol fwy o gysylltiad â Bwrdeistref Sirol Wrecsam nag â Sir Ddinbych; mae bron pob un o gysylltiadau naturiol Llangollen yn mynd i gyfeiriad Wrecsam, y Waun a Dyffryn Ceiriog. Mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus amlach gydag amserau teithio byrrach i Wrecsam nag i drefi yn Sir Ddinbych fel y Rhyl, Rhuthun a Phrestatyn ac ati. Mae Wrecsam yn haws o lawer i'w chyrraedd na Sir Ddinbych ar drafnidiaeth breifat a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig yn ystod y gaeaf pan fydd Bwlch yr Oernant a'r ffordd i Gorwen yn aml ar gau.
- Mae Llangollen a Wrecsam yn gweddu i'w gilydd ac mae ganddynt lawer o gysylltiadau cryf tra byddai harddwch naturiol ac unigoliaeth Llangollen yn sicrhau na fyddai'n cael ei llethu gan Dref Wrecsam ac y byddai yn cadw ei hunaniaeth wledig.
- Mae trigolion Llangollen yn defnyddio Wrecsam yn rheolaidd ar gyfer siopa, gwaith a chyfleusterau cyhoeddus eraill fel y pwll nofio. Anaml y defnyddia trigolion Llangollen gyfleusterau yn Sir Ddinbych oherwydd y pellter a'r amser teithio.
- Mae'r pellteroedd hir a'r cysylltiadau ffordd gwael rhwng Llangollen a threfi eraill yn Sir Ddinbych yn achosi problemau i ddisgyblion ysgol sy'n teithio i ddigwyddiadau rhwng ysgolion eraill yn y sir a gweithgareddau allgyrsiol sy'n arwain at gostau teithio uchel. Ni fyddai hyn yn broblem pe bai Llangollen yn cael ei throsglwyddo i Wrecsam oherwydd y cysylltiadau ffordd da sy'n bodoli rhwng Llangollen ac ardal Wrecsam.
- Cyfeirir trigolion at Ysbyty Maelor Wrecsam am driniaeth ac nid at ysbyty Bodelwyddan yn Sir Ddinbych ac mae'r trefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau iechyd lleol fel meddygon teulu Llangollen yn syrthio o fewn Grŵp Iechyd Wrecsam. Fodd bynnag, gallai hyn newid yn y dyfodol agos gan fod y cynigion presennol a roddir ar waith gan y Cynulliad Cenedlaethol oll yn cynnig cyfuno holl faterion iechyd gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'u cadw o fewn ffiniau awdurdodau unedol. Byddai hyn yn newid y modd y darperir gwasanaethau i bobl Llangollen yn llwyr er anfantais iddynt.
- Caiff cyfran fawr o'r disgyblion yn Ysgol Dinas Brân eu cludo mewn bysys o bentrefi sydd bellach yn ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam h.y. Froncysyllte, Trefor a Garth.
- Er bod gan Ysgol Bryn Collen uned anghenion arbennig, gall ond ymdopi â phlant â mân anawsterau. Ni all yr uned ymdopi â phlant ag anawsterau dysgu difrifol sy'n golygu bod yn rhaid i rieni'r plant hyn ystyried uned anghenion arbennig yn Ysgol Johnstown, Wrecsam.
- Gwrthbrofwyd y ddadl y byddai Sir Ddinbych yn dioddef yn sgîl colli incwm y dreth gyngor gan adroddiad annibynnol y Comisiwn ei hun ar effaith colli Llangollen, sydd wedi dangos nad yw hyn yn wir. Byddai Sir Ddinbych yn ddiogel yn ariannol heb Langollen.
- Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hanes rhagorol o ddefnyddio arian Ewropeaidd ac mae'r awgrym na fyddent yn gallu gweinyddu statws Amcan 1 Llangollen yn anghywir.
- Arweiniodd y modd y cynhaliwyd y refferendwm ar yr arolwg o'r ffin at ddryswch a diffyg diddordeb a arweiniodd at nifer isel yn pleidleisio. Ni chafodd ei hysbysebu ac ni chynhyrchwyd unrhyw lenyddiaeth gan yr awdurdodau lleol.
- Llangollen fyddai'r unig brif dref dwristaidd yn Wrecsam, ond yn Sir Ddinbych mae'n rhaid iddi rannu'r gyllideb ar gyfer twristiaeth gyda'r Rhyl, Prestatyn, Rhuthun, Dinbych a Rhuddlan.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chynnal a chadw Plas Newydd a Pharc Glan yr Afon yn Llangollen sy'n atyniadau pwysig i dwristiaid. Teimlai sawl un o'r trigolion fod Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â darparu cyfleusterau i bobl ifanc yn Llangollen.

- Effeithiwyd yn ddifrifol ar y Gwasanaeth Gofal Cartref i'r henoed yng Nghymuned Llangollen yn sgîl preifateiddio'r gwasanaeth yn ddiweddar gan Gyngor Sir Ddinbych; a
- Teimlai sawl un o'r trigolion na roddwyd digon o gyhoeddusrwydd i Gyfarfod Cyhoeddus y Comisiwn gan ei gwneud yn anodd i gefnogwyr Wrecsam eu trefnu eu hunain. Roeddent yn siomedig hefyd bod llawer o drigolion Llangollen wedi methu â siarad oherwydd nifer fawr y cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych a oedd yn bresennol a'r amser a dreuliwyd ganddynt yn rhoi eu tystiolaeth.

5.27 Gwnaeth sawl un o **drigolion Llangollen a'r ardaloedd cyfagos** y pwyntiau canlynol yn gwrthwynebu trosglwyddo Llangollen o Sir Ddinbych i Wrecsam:

- Nid Wrecsam yw'r unig dref y tu allan i Sir Ddinbych a ddefnyddir ar gyfer siopa gan drigolion Llangollen - mae llawer ohonynt yn teithio i Groesoswallt, Caer a'r Amwythig at y diben hwn.
- Lleolir Llangollen ar ffin Wrecsam a Sir Ddinbych ac felly bydd bob amser ar ymylon pa bynnag un o'r awdurdodau hyn y bydd o'u mewn.
- Byddai cadw Llangollen o fewn Sir Ddinbych yn unol â chanlyniad refferendwm 2000 a ddangosodd bod mwyafrif y trigolion yn fodlon aros o fewn Sir Ddinbych. Dylid glynu at y penderfyniad democrataidd hwn.
- Mynegodd llawer o'r trigolion eu boddhad gyda'r gwasanaethau a gyflenwir gan Gyngor Sir Ddinbych fel gwaredu gwastraff, glanhau'r strydoedd, cynnal a chadw'r ffyrdd, addysg a gwasanaethau llyfrgell, cyfleusterau iechyd, a chynnal a chadw ardaloedd cyhoeddus. Dangosodd Cyngor Sir Ddinbych eu bod yn gallu darparu gwasanaethau effeithlon a chost effeithiol i Langollen a byddai newid i'r ffin yn golygu costau gweinyddol i'r ddau awdurdod.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi mabwysiadu'r system biniau ar olwynion o gasglu sbwriel nad yw'n addas ar gyfer tai teras bach a phalmentydd cul Llangollen.
- Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y Siop Un Cam yn effeithiol ac yn effeithlon. Gall y trigolion gysylltu ag adrannau a swyddogion y sir yn gyflym ac yn effeithlon sy'n golygu y gall llawer o'r trigolion ddatrys eu problemau heb orfod teithio i swyddfeydd y cyngor yn Sir Ddinbych.
- Mae dewis da o gyfleoedd chweched dosbarth ar gael i blant trigolion Llangollen o dan Sir Ddinbych. Mae'r dewisiadau ar gyfer cyfleoedd chweched dosbarth y tu allan i dref Wrecsam yn gyfyngedig.
- Mae Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn gymunedau gwledig gyda chysylltiadau diwylliannol cryf â Dyffryn Dyfrdwy Uchaf a gweddill Sir Ddinbych. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych brofiad ac arbenigedd sylweddol wrth ymdrin ag anghenion cymunedau gwledig.
- Mae gan Wasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych lawer o arbenigedd lleol i ddarparu gwasanaeth ardderchog i Langollen.
- Ni fu Wrecsam yn ymwneud o gwbl â rhedeg Llangollen erioed. Cyn llunio'r awdurdodau unedol roedd Llangollen yn rhan o awdurdod Glyndŵr a oedd a'i bencadlys yn Rhuthun.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar gael statws dinas i Dref Wrecsam ac o ganlyniad mae'n bosibl na fydd yn gallu dyrannu digon o adnoddau i Langollen a Llandysilio-yn-Iâl pe'u trosglwyddid.

- Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ceisio cael Llangollen dynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a fydd yn diogelu'r ardal rhag cael ei difwyno ac a fydd o fudd i'r diwydiant twristiaeth.
- Mae buddiannau bod yn ardal Amcan 1 o dan Sir Ddinbych yn dechrau dod i'r amlwg yn Llangollen. Er y byddai'r arian Amcan 1 yn symud gyda Llangollen i Wrecsam nid oes unrhyw isadeiledd ar waith o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ymdrin ag ef. Byddai sefydlu'r isadeiledd o fewn Wrecsam yn gofyn am amser ac adnoddau i gyflawni rhywbeth sydd eisoes ar waith yn Sir Ddinbych.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi cymorth ariannol i Langollen ac maent yn ymdrechu i ymestyn gweithgarwch economaidd y dref. Sefydlwyd Menter Trefi Bach a Phentrefi i ddatblygu partneriaethau economaidd ledled Dyffryn Dyfrdwy ac i ddarparu grantiau i fusnesau bach. Pe trosglwyddwyd Llangollen i Wrecsam byddai'n cael effaith andwyol ar y mentrau economaidd a thwristiaeth sy'n datblygu o fewn Dyffryn Dyfrdwy drwy'r Fenter hon.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi buddsoddi arian yn Llangollen gan gynnwys yr Uned Gymraeg newydd yn Ysgol Bryn Collen a derbyniodd y diwydiant twristiaeth gymorth ariannol ganddynt yn ystod argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau.
- Datblygwyd llawer o arbenigedd lleol gan swyddogion Cyngor Sir Ddinbych. Caiff y rhan fwyaf o'r arbenigedd hwn ei golli pe trosglwyddwyd Llangollen i Gyngor Wrecsam, gan y byddai llawer o'r swyddogion hyn yn aros o fewn Cyngor Sir Ddinbych.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi llunio cysylltiadau gyda grwpiau lleol ac maent yn trefnu arian ar eu cyfer ac yn gweithio'n agos â hwy. Bwriedir adnewyddu Parc Glan yr Afon a lluniwyd partneriaeth rhwng y Cyngor a Chymdeithas Trigolion Pengwern i wella a darparu cyfleusterau ar gyfer eu hystad.
- Erbyn hyn mae gan Gyngor Sir Ddinbych yr arian i ddechrau gweithredu'r cynlluniau a luniwyd ganddynt ar gyfer gwella Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl. Ymgymerwyd â sawl project cadwraeth ganddynt yn yr ardal fel yr Hen Gapel yn Stryd y Castell lle y bwriedir sefydlu'r ganolfan dwristiaeth ddiwylliannol gyntaf yn Ninbych. Sefydlwyd prosiect parhaus pwysig hefyd gyda Gerddi Plas Newydd.
- Llwyddodd Cyngor Sir Ddinbych i gynnal y lefel uchel honno o ymrwymiad i'r Eisteddfod Ryngwladol ac maent yn dechrau llunio strategaeth ar gyfer datblygu Pafiliwn yr Eisteddfod er mwyn sicrhau ei dyfodol hir dymor ac fel cyfrwng o sicrhau datblygiad economaidd yn y dref.

6. ASESIAD

6.1 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft datganwyd ar ôl i ni ystyried y sylwadau cychwynnol a gyflwynwyd i ni y daethom i'r casgliad mai'r unig newid i'w ystyried o fewn paramedrau'r arolwg fyddai newid i'r ffin i ddod â Chymunedau Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl o fewn ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

6.2 Er mwyn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd ym mharagraff 3.3(c) uchod ac yn wir er budd llywodraeth leol gyfleus ac effeithiol, mae'n ofynnol i ni ystyried effaith y newid arfaethedig ar Sir Ddinbych. Ystyriwyd gennym er mwyn llunio barn hyddysg ac annibynnol am y mater pwysig hwn, y dylai'r Comisiwn ddefnyddio gwasanaethau arbenigwr ym maes cyllidebau llywodraeth leol i gynnal ymchwiliad. Ystyriwyd yr adroddiad a ddeilliodd o'r ymchwiliad

hwn, ynghyd â'r adroddiad a baratowyd gan Gyngor Sir Ddinbych a nifer o sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r mater hwn, cyn i ni lunio ein Cynigion Drafft.

6.3 Cynhwyswyd ein hystyriaeth fanwl o'r mater hwn yn adran 5 ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft. Ym mharagraff olaf yr adran (5.24) nodwyd:

> *Rydym o'r farn na fyddai trosglwyddo Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl o ran cyllideb yn cael effaith sylweddol ar Gyngor Sir Ddinbych ac y byddai'r Cyngor yn parhau yn Awdurdod Unedol ymarferol o ran poblogaeth, arbedion maint ac ardal ddaearyddol.*

6.4 Mewn ymateb i'n Cynigion Drafft, nododd Cyngor Sir Ddinbych y byddai'r trosglwyddiad yn cael effaith ariannol andwyol ar Sir Ddinbych. Roeddent o'r farn bod y cyfrifiadau SSA diweddaraf yn cadarnhau bod yna bellach llawer mwy o gysondeb rhwng gwariant y Cyngor a'u SSA ac nad yw hyn yn fanteisiol i ardal yr arolwg na'r ardal weddilliol. Darparodd y Cyngor hefyd fanylion pellach am eu gorbenion canolog yn y gyllideb Addysg gan ddatgan o hyd na ellid eu lleihau yn y tymor byr i ganolig. Tynnodd y Cyngor hefyd sylw'r Comisiwn at y problemau o ran trefniadaeth ddemograffig gwasanaethau'r Cyngor a oedd, yn eu barn hwy, yn broblem hir dymor nad yw'n amlwg yn y model côst.

6.5 Fodd bynnag, ar ôl ystyried sylwadau Cyngor Sir Ddinbych yn ofalus, rydym yn parhau o'r farn na fyddai effaith ariannol trosglwyddo yn cael effaith sylweddol ar Gyngor Sir Ddinbych.

6.6 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ar ôl dod i'r casgliad na fyddai effaith ariannol y trosglwyddo yn cael effaith sylweddol ar Gyngor Sir Ddinbych, ystyriwyd ffactorau eraill gennym a oedd yn arwyddocaol yn ein barn ni wrth ystyried y newid a awgrymwyd i'r ffin yn nhermau pa mor ddymunol y byddai er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Ar ôl derbyn gwybodaeth bellach a ddarparwyd gan y rheini a oedd yn cyflwyno sylwadau, rhoddwyd ystyriaeth bellach gennym i'r ffactorau hyn.

Daearyddiaeth

6.7 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft ystyriwyd y pwyntiau a godwyd mewn perthynas â lleoliad Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn nhermau daearyddiaeth yr ardal a'u hagosrwydd cymharol at ardaloedd Sir Ddinbych a Wrecsam.

6.8 Roedd y sylwadau o blaid y newid i'r ffin yn nodi bod Llangollen yn Nyffryn Dyfrdwy, sydd wedi'i wahanu o Ddyffryn Clwyd i'r gogledd a swyddfeydd gweinyddol Cyngor Sir Ddinbych yn Rhuthun, y Rhyl a Phrestatyn gan Fwlch yr Oernant. Mae'r sylwadau yn nodi'r cysylltiadau ffyrdd da a'r drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd a chyfleus rhwng Llangollen a Wrecsam.

6.9 Mae'r rheini sydd o blaid cadw'r ffin bresennol yn ystyried bod Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn ardaloedd gwledig sydd â llawer yn gyffredin ag ardaloedd gwledig Glyndyfrdwy, Carrog a Chorwen ymhellach i fyny Dyffryn Dyfrdwy. Ystyriant fod y ffin bresennol yn Nhrefor yn doriad naturiol rhwng cytref drefol Wrecsam a Dyffryn Dyfrdwy gwledig.

6.10 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ystyriwyd fod Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl wedi'u cysylltu'n ddaearyddol â rhannau o Wrecsam a rhannau eraill o Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod y cyfleusterau hynny a gysylltir yn gyffredinol ag ardaloedd trefol mwy (fel

canolfannau siopa, cyfleusterau hamdden ac ati) yn fwy hygyrch o fewn Wrecsam o gymharu â rhannau eraill o Sir Ddinbych.

Hanes

6.11 Mae nifer o'r sylwadau yn awgrymu bod gan Langollen fwy o gysylltiadau â Sir bresennol Wrecsam na Sir bresennol Dinbych gan fod ardal gyfan Bwrdeistref Sirol Wrecsam fwy neu lai yn rhan o'r hen Sir Ddinbych (cyn 1974) lle mai Rhuthun a Dinbych yw'r unig ddwy dref fawr o fewn y Sir Ddinbych bresennol a gynhwyswyd cyn hynny o fewn yr hen Sir Ddinbych. Cyn 1974 roedd Plwyfi Llangollen Wledig a Llandysilio-yn-Iâl o fewn ardal Cyngor Dosbarth Wrecsam Wledig.

6.12 Nodwyd hefyd o'r sylwadau bod Llangollen, cyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996, yn rhan o Gyngor Dosbarth Glyndŵr a oedd a'i bencadlys yn Rhuthun. Nododd Cyngor Sir Ddinbych hefyd na fu Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl erioed yn rhan o awdurdod ar lefel dosbarth a oedd yn cynnwys Tref Wrecsam.

6.13 Mae'n amlwg yn nhermau llywodraeth leol, fod gan Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl gysylltiadau hanesyddol gyda'r ddwy ran o ardal bresennol Sir Ddinbych a rhannau o ardal bresennol Wrecsam. Fodd bynnag, nodwyd gennym ers 1974 na fu unrhyw gysylltiadau llywodraeth leol ar lefel cyngor dosbarth rhwng Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl a Wrecsam.

Darparu Gwasanaethau

6.14 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft nodwyd gennym fod nifer o'r sylwadau o blaid newid y ffin yn nodi'r pellterau rhwng Llangollen a phrif swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych yn Rhuthun, y Rhyl a Phrestatyn o gymharu â'r pellter rhwng Llangollen a Wrecsam. Fodd bynnag, nododd y sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych ac eraill fod llawer o'r gwasanaethau llywodraeth leol a ddarperir i Langollen a Llandysilio-yn-Iâl wedi'u lleoli'n lleol. Nodwyd gennym fod Cyngor Sir Ddinbych oherwydd cyfansoddiad topograffig a demograffig y Sir, wedi trefnu i ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol, a mynediad iddynt, ar sail model datganoledig. Yn ein barn ni, golyga hyn nad yw Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl wedi dioddef unrhyw broblemau sylweddol, yn nhermau gwasanaethau llywodraeth leol, o ganlyniad i'w pellter o swyddfeydd y Cyngor Sir yn Sir Ddinbych.

Datblygiad Economaidd

6.15 Cadarnhawyd gennym yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft pe newidid y ffin, y byddai Llangollen yn cadw ei chymhwyster ar gyfer arian Amcan Un ac y byddai'r rhwymedigaeth i ddarparu arian cyfatebol yn cael ei throsglwyddo. Nododd Cyngor Sir Ddinbych y byddai angen i Wrecsam sefydlu strwythurau gweinyddol a strwythurau partneriaeth ar gyfer y prosiectau Amcan Un ac na ddylid diystyru'r anawsterau cysylltiedig.

6.16 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o'r farn mai mater bach oedd y costau gweinyddol ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag Amcan Un gan fod eisoes ganddynt Swyddog Ewropeaidd a sawl swyddog prosiect ynghlwm â threfniadau ariannu Amcan Tri a threfniadau ariannu Ewropeaidd eraill. Nodwyd ganddynt mai mater byr dymor yw'r mater Amcan Un gan

fod cymhwyster yn dod i ben yn 2006. Fodd bynnag, nododd Cyngor Sir Ddinbych bod yna faterion ariannu trosiannol ac o bosibl materion ariannu parhad hyd at 2010 a thu hwnt.

6.17 Cynhwysir Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl o fewn strategaeth economaidd Sir Ddinbych ar gyfer ardal Dyffryn Dyfrdwy ac mae'r Cyngor o'r farn y byddai newid y ffin yn cael effaith andwyol ar barhad datblygiad economaidd yr ardal.

6.18 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd yn rhedeg Menter Trefi Bach a Phentrefi sy'n cynnwys Cymuned Llangollen Wledig. Yn nhermau Partneriaeth Ardal Dyffryn Dyfrdwy, ni welant unrhyw reswm pam na allai Partneriaeth Ardal traws-ffiniol weithio ac felly maent o'r farn nad oes sail i'r honiad y byddai effaith economaidd andwyol ar ddatblygiad yr ardal.

6.19 Ar yr amod y sefydlir trefniadau traws-ffiniol priodol ac y'u cynhelir, ystyriwn na fyddai newid i'r ffin yn effeithio'n andwyol ar ddatblygiad economaidd yr ardal. Fodd bynnag, ystyriwn hefyd y gellid sefydlu trefniadau o'r fath, hyd yn oed heb newid y ffin, er budd datblygiad economaidd yr ardal gyffredinol sy'n cynnwys yr holl Gymunedau a gynhwysir yn y cyfarwyddiadau ar gyfer yr arolwg hwn.

Addysg

6.20 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ystyriwyd y sylwadau a dderbyniwyd gennym mewn perthynas ag effaith newid i'r ffin ar ddarparu gwasanaethau addysg i ardal Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl. Nodwyd gweithgareddau rhwng gwahanol ysgolion a thrafnidiaeth ysgolion fel dau faes y gallai newid y ffin effeithio arnynt.

6.21 Derbyniasom nifer o sylwadau pellach mewn perthynas â safonau cyffredinol ac amrywiaeth y gwasanaethau addysg ac rydym yn fodlon bod gan Sir Ddinbych a Wrecsam fel ei gilydd y gallu a'r parodrwydd angenrheidiol i sicrhau y'u cynhelir waeth beth fydd canlyniad yr arolwg hwn.

6.22 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft (paragraff 7.22) ystyriom y byddai'n debygol y byddai'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam barhau i ddarparu trafnidiaeth am ddim i Ysgol Dinas Brân o'r ardaloedd lle y mae'n darparu trafnidiaeth ar hyn o bryd ac y byddai'r un peth yn wir ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Felly, ystyriwyd y byddai'n annhebygol y deuai unrhyw arbedion i'r amlwg mewn perthynas â darparu trafnidiaeth ysgol o ganlyniad i newid y ffin.

6.23 Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cytuno â hyn yn eu sylw gan y gellid gwneud arbedion sylweddol o ganlyniad i sefydlu ymagwedd 'un awdurdod' tuag at gontractau. Ar hyn o bryd mae 60% o ddisgyblion Ysgol Dinas Brân yn byw yn ardal sir Wrecsam gyda 39% yn byw yn Sir Ddinbych (gydag 1% o siroedd eraill). Pe newidid y ffin byddai 86% o'r disgyblion yn byw yn Wrecsam gyda dim ond 13% ohonynt yn byw yn Sir Ddinbych. Gan nad yw'n debygol y darperir trafnidiaeth am ddim i'r ysgol i nifer o'r disgyblion hynny a fyddai'n trosglwyddo i Wrecsam gan eu bod yn byw o fewn Llangollen, nid ydym yn siwr pa mor sylweddol fyddai'r arbedion a awgrymir. Ystyriwn hefyd, pe gellid gwneud arbedion sylweddol, y gallai'r Cynghorau ystyried rhyw ffurf ar drefniant cydweithio waeth beth fydd canlyniad yr arolwg hwn.

6.24 Ystyriwyd y problemau a achosir gan y pellterau y mae disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau rhwng gwahanol ysgolion a gweithgareddau sirol yn eu teithio yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft (paragraff 7.23) ac fe'u codwyd eto gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac eraill mewn sylwadau dilynol. Roeddem yn cydymdeimlo â'r anawsterau a wynebir gan y rhieni a'r staff dan sylw ac yn derbyn y byddai'r problemau hyn yn cael eu lleddfu pe byddai'r ysgol wedi'i lleoli o fewn yr ardal a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Nid ydym o'r farn fod y problemau mewn perthynas â gweithgareddau rhwng gwahanol ysgolion yn gysylltiedig â gweithgareddau sirol. Cyn y newidiadau o fewn llywodraeth leol ym 1996, byddai'r gweithgareddau rhwng gwahanol ysgolion wedi cael eu trefnu mewn cydweithrediad ag ysgolion cyfleus o fewn Sir Clwyd. Yn weithredol byddai hyn wedi cynnwys nifer o ysgolion sydd bellach o fewn ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Byddai'r gweithgareddau sirol wedi cael eu cynnal mewn amrywiol ganolfannau fel Wrecsam, Glannau Dyfrdwy, y Rhyl, Bae Colwyn ac ati. Felly, ystyriwn bod y problemau a wynebir gan ddisgyblion Llangollen o ran teithio pellterau hir ar gyfer gweithgareddau sirol yn broblemau sy'n bodoli ers amser er y cytunwn o ystyried y siroedd llai ar ôl 1996 ei bod yn debygol yn ystadegol fod mwy o ddisgyblion Llangollen yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn erbyn hyn. O ran gweithgareddau rhwng gwahanol ysgolion ystyriwn y gellid lleddfu'r problemau drwy sefydlu trefniant traws-ffiniol rhwng Sir Ddinbych a Wrecsam.

Yr Iaith Gymraeg

6.25 Rydym o'r farn bod cynnal a datblygu diwylliant yn seiliedig ar yr iaith Gymraeg yn ffactor pwysig wrth ystyried newidiadau i ardaloedd llywodraeth leol. Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft ystyriwyd fod proffil diwylliannol iaith Llangollen/Llandysilio-yn-Iâl yn cyfateb yn agosach â phroffil Sir Ddinbych, er i ni nodi bod gan ardaloedd o Wrecsam, fel Dyffryn Ceiriog, broffil tebyg i Langollen/Llandysilio-yn-Iâl. Felly ystyriwyd gennym, ar yr amod y rhoddir cydnabyddiaeth briodol i ddatblygu'r iaith Gymraeg yn Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, na fyddai gan newid a awgrymir i'r ffin o reidrwydd effaith andwyol.

6.26 Mewn ymateb, nododd Cyngor Sir Ddinbych eu bod o'r farn bod gan sylwadau'r Comisiwn yn yr adroddiad ar y Cynigion Drafft ffocws amhriodol gan nad oedd y cymariaethau rhwng eithafau'r ganran o siaradwyr Cymraeg o fewn Siroedd Cymru yn berthnasol wrth lunio cymhariaeth leol. Roeddent o'r farn bod y ffaith bod canran sylweddol uwch o bobl yn siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych o gymharu â Wrecsam yn fater arwyddocaol.

6.27 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gofyn i'r Comisiwn nodi yn ogystal ag ardaloedd fel Dyffryn Ceiriog fod yna ardaloedd mwy poblog o Wrecsam lle y mae'r Iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn gryf iawn, sef Rhosllannerchrugog. Noda'r Cyngor ymhellach at hyn fod myfyrwyr o Langollen a Llandysilio-yn-Iâl sydd am gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn teithio i Ysgol Morgan Llwyd, Ysgol Uwchradd Gymraeg newydd a gydnabyddir fel un o'r cyfleusterau gorau yng Nghymru ar gyfer addysg sector Cymraeg hyd at 18 oed.

6.28 Rhoddwyd ystyriaeth ofalus gennym i'r holl sylwadau a oedd yn ymwneud â'r effeithiau tebygol ar ddiwylliant iaith Gymraeg Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl a chadwn at ein safbwynt yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft sef na fyddai newid i'r ffin o reidrwydd yn cael effaith andwyol.

Cofrestrwyr

6.29 Roedd nifer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cam cychwynnol yr arolwg yn ymwneud â'r pellterau i'w teithio i gofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau. Fodd bynnag, nodwyd yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft bod trefniant ar waith lle y gall trigolion wneud apwyntiad i Gofrestrydd ymweld â Llangollen a oedd yn ateb effeithiol i'r broblem, yn ein barn ni.

6.30 Mewn ymateb, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fod dau o'r sylwadau cychwynnol yn cyfeirio at yr angen i deithio i Ruthun i fanteisio ar y gwasanaeth hwn ac ystyriant fod hynny'n dystiolaeth nad yw'r trefniant apwyntiadau yn gweithio. Nodwyd hefyd ganddynt eu bod ar hyn o bryd yn darparu gwasanaeth i'r Waun lle y mae'r Cofrestrydd yn mynychu ar 3 bore bob wythnos ac y gellid sefydlu trefniant tebyg ar gyfer Llangollen.

6.31 Yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'cofrestru sifil: newid hanfodol' ceir cynigion ar gyfer cofrestru dros y ffôn neu dros y Rhyngrwyd a thrwy ddefnyddio cronfa ddata ganolog, y gellir cofrestru o unrhyw swyddfa. Mae'r Papur Gwyn yn rhagweld y bydd llawer o'r cynigion hyn yn weithredol erbyn diwedd 2005.

6.32 Rydym o'r farn bod defnyddio Cofrestrydd teithiol yn ateb effeithiol ar y cyfan i'r broblem bod trigolion Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn gorfod ymweld â swyddfa'r Cofrestrydd yn Rhuthun er y nodwyd gennym y bu rhai anawsterau gyda'r system hon. Nodwyd y cynigion ar gyfer newidiadau i'r broses gofrestru ac ystyriwyd gennym, yn yr hir dymor, y bydd y cynigion hyn yn darparu ateb mwy cynhwysfawr i'r broblem.

Cyfleusterau Hamdden

6.33 Yn y sylwadau cychwynnol a dderbyniwyd gennym, nododd sawl un o drigolion Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl lle nad oes cyfleusterau yn Llangollen (fel pwll nofio) eu bod yn teithio i gyfleusterau o fewn Wrecsam yn hytrach na gwneud taith hirach i gyfleusterau yn Sir Ddinbych. Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ystyriwyd mai agosrwydd a chost sy'n dylanwadu ar ddefnydd trigolion o gyfleusterau hamdden yn gyffredinol yn hytrach na pha awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y cyfleuster (oni bai bod cynllun disgownt i drigolion yn weithredol). Nodwyd gennym nad oeddem yn ymwybodol fod nifer y bobl sy'n defnyddio cyfleusterau y tu allan i'r sir mor uchel fel eu bod yn achosi problem yn nhermau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

6.34 Yn eu hymateb, ystyriodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bod pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y cyfleusterau hamdden yn ystyriaeth gan fod Wrecsam wedi darparu cyfleusterau yn yr ardal ac nad oedd Sir Ddinbych wedi gwneud hynny. Gan fod y cyfleusterau yn Wrecsam wedi'u sybsideiddio cyfyd y mater o degwch gan fod trigolion Llangollen yn talu am gyfleusterau na ddefnyddir ganddynt tra'n defnyddio cyfleusterau wedi'u sybsideiddio yn Wrecsam. Yn eu barn hwy gallai newid i'r ffin achosi gwell sefyllfa ategol yn hytrach na glynu at yr ymagwedd bresennol, gystadleuol heb ei chydlynu.

6.35 Er ein bod yn derbyn y pwynt a wnaed gan Wrecsam, nodwn unwaith eto nad ydym yn ymwybodol bod nifer y trigolion o Langollen a Llandysilio-yn-Iâl sy'n defnyddio cyfleusterau

Wrecsam yn achosi problem sylweddol. Rydym yn ymwybodol nad yw'r arfer o ddefnyddio cyfleusterau y tu allan i'r sir yn unigryw i'r ardal y cynhelir arolwg ohoni. Ymhlith yr enghreifftiau lleol o'r arfer hwn ceir cyfleusterau fel y ganolfan sglefrio iâ a Theatr Clwyd sydd wedi'u lleoli yn Sir y Fflint ond a ddefnyddir hefyd gan drigolion Wrecsam a Sir Ddinbych. Rydym o'r farn y gellir cyflawni gwell sefyllfa ategol wrth ddarparu a defnyddio cyfleusterau hamdden drwy sicrhau mwy o gydweithrediad rhwng y Cynghorau heb fod angen newid y ffin.

Gwasanaethau i Ieuenctid

6.36 Yn eu sylw cychwynnol, roedd Cyngor Sir Ddinbych o'r farn y byddai Gwasanaethau i Ieuenctid yng Nghorwen yn cael eu hynysu ymhellach gan y byddai'r cysylltiadau â rhwydwaith o Glybiau a threfniadau trafnidiaeth yn dod i ben. Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ystyriwyd gennym y byddai'r newid arfaethedig i'r ffin yn achosi anawsterau wrth drefnu Gwasanaethau i Ieuenctid yng Nghorwen, yn sicr yn y byr dymor.

6.37 Yn eu hymateb, ystyriodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam pe newidid y ffin, y gallai'r Gwasanaethau i Ieuenctid yng Nghorwen gael eu cysylltu o hyd â'r gwasanaethau hynny yn Llangollen drwy sefydlu trefniant rhwng y ddau Gyngor. Ystyriwyd ganddynt y byddai'r gwasanaethau yn eu cyfanrwydd yn elwa ar gysylltiadau gyda gwasanaethau cymorth i ieuenctid eraill yn rhan ddeheuol Wrecsam.

6.38 Rydym o'r farn na fyddai newid i'r ffin o reidrwydd yn cael effaith andwyol ar ddarparu Gwasanaethau i Ieuenctid o ystyried cydweithrediad y ddau Gyngor.

Gwasanaethau Llyfrgell

6.39 Yn eu sylw cychwynnol, hysbysodd Cyngor Sir Ddinbych y Comisiwn bod Llyfrgell a Siop Un Cam Corwen a Llyfrgell a Siop Un Cam Llangollen wedi'u cysylltu at ddibenion staffio. Ystyriai'r Cyngor y byddai gwrtharbedion maint yn dod i'r amlwg pe collid llyfrgell Llangollen.

6.40 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ystyriwyd gennym y byddai'r newid arfaethedig i'r ffin yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych adolygu'r trefniadau staffio ar gyfer Llyfrgell a Siop Un Cam Corwen ac y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn yr un modd yn adolygu'r dull o weinyddu Llyfrgell a Siop Un Cam Llangollen.

6.41 Yn eu hymateb, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o'r farn fod iaith paragraffau 7.31 a 7.32 o'n hadroddiad ar y Cynigion Drafft yn negyddol ei thôn gan eu bod o'r farn y gallai arolwg gan Sir Ddinbych yn dilyn newid i'r ffin ysgogi gwelliannau i wasanaethau yng Nghorwen hefyd.

6.42 Fodd bynnag, roedd y Comisiwn o'r farn fod rhywfaint o sylwedd i bryderon Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y mater hwn a'i bod yn briodol tynnu sylw atynt. Nodwn y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithredu newidiadau mewn ymateb i e-lywodraeth a datblygiad cyfleusterau a threfniadau o amgylch y Fwrdeistref Sirol. Yn eu barn hwy, byddai hyn o bosibl o gymorth o ran y trefniadau gweinyddol ar gyfer Llyfrgell a Siop Un Cam Llangollen pe newidid y ffin.

6.43 Rydym yn parhau o'r farn y byddai newid i'r ffin yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych ad-drefnu'r trefniadau gweinyddol yng Nghorwen ac i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ystyried y trefniadau yn Llangollen, naill ai ar wahân neu fel rhan o ystyriaeth ehangach.

Twristiaeth

6.44 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, nodwyd bod Twristiaeth yn weithgaredd economaidd pwysig i Langollen a Llandysilio-yn-Iâl a hyrwyddir ar sail sirol a chan y fenter Ffiniau a gaiff ei rhedeg ar y cyd rhwng Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Ystyriwyd gennym o gofio'r amlygrwydd a roddwyd gan Sir Ddinbych i ardal Llangollen yn ei waith wrth hyrwyddo twristiaeth, y byddai'r newid arfaethedig i'r ffin yn achosi dryswch cychwynnol o ran hunaniaeth. Ystyriwyd gennym hefyd y byddai'r newid yn golygu costau cychwynnol i Sir Ddinbych a Wrecsam er mwyn talu am y newidiadau y byddai'n rhaid eu gwneud i lenyddiaeth a gorbenion gweinyddol eraill.

6.45 Mewn ymateb, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn anghydweld â'r farn y byddai newid i'r ffin yn achosi dryswch cychwynnol o ran hunaniaeth. Nodwyd ganddynt i'r Bwrdd Croeso gytuno'n ddiweddar i osod Llangollen a Wrecsam fel un grŵp o dan y fenter Ardal Twf Twristiaeth Rhanbarthol i'w hyrwyddo a buddsoddi ynddynt ar y cyd. Roeddent o'r farn hefyd bod yr awgrym y byddai costau cychwynnol i Sir Ddinbych a Wrecsam er mwyn talu am newidiadau i lenyddiaeth yr un mor annilys gan fod llenyddiaeth yn cael ei chynhyrchu yn flynyddol at ddiben marchnata ac yn bennaf at ddiben hyrwyddo'r "Gororau" y mae Wrecsam a Llangollen yn rhan ohonynt. Yn ogystal, nodwyd ganddynt y ceir cymorth ariannol ychwanegol gan Fwrdd Croeso Cymru ynghlwm â statws Ardal Twf Twristiaeth.

6.46 Yn eu hymateb, ystyriodd Cyngor Sir Ddinbych bod ein barn y byddai'r newid arfaethedig i'r ffin yn achosi dryswch cychwynnol o ran hunaniaeth yn tanddatgan yr achos ac nad oedd yn cydnabod yn ddigonol bod Llangollen yn ganolog i dwristiaeth ddiwylliannol a sail economaidd Sir Ddinbych. Roeddent o'r farn na ellid gwahanu'r gwaith o hyrwyddo twristiaeth yn Sir Ddinbych â'r datblygiad diwylliannol yn Llangollen. Nodwyd y cynllunio a'r buddsoddi a fu i ddatblygu Canolfan Twristiaeth Ddiwylliannol yn Llangollen a fydd yn darparu canolfan twristiaeth, y celfyddydau, cefn gwlad a dysgu integredig a fyddai'n tywys ymwelwyr i'r holl gyfleusterau diwylliannol o fewn y sir. Roedd y Cyngor o'r farn mai cryfder Sir Ddinbych oedd marchnad benodol twristiaeth ddiwylliannol.

6.47 Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed gan y ddau awdurdod ar y mater hwn, daethom i'r casgliad y byddai newid i'r ffin yn cael effaith sylweddol ar fenter twristiaeth ddiwylliannol Cyngor Sir Ddinbych.

Cefnogaeth gan y Cyhoedd

6.48 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft nodwyd yn refferendwm 1993 y pleidleisiodd 58.7% o drigolion Llangollen i ymuno â Wrecsam ac yn y refferendwm diweddarach ym mis Mai 2000 y pleidleisiodd 50.7% yn erbyn arolwg o'r ffin. O ganlyniadau'r refferenda hyn ac o'r sylwadau a dderbyniwyd gan drigolion, gwelsom fod y farn an gadw Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl aros o fewn Sir Ddinbych neu a ddylid eu trosglwyddo i Wrecsam wedi'i rhannu. Roedd

hefyd yn amlwg i ni nad oes unrhyw fwyafrif helaeth o blaid y naill opsiwn na'r llall. Roeddem yn fodlon na fyddai unrhyw ddiben cynnal refferendwm arall.

6.49 Mae'r sylwadau pellach a dderbyniwyd gennym a'r barnau a fynegwyd yn y cyfarfod cyhoeddus yn Llangollen wedi cadarnhau ein safbwynt fod y farn leol wedi'i rhannu ac nad oes unrhyw fwyafrif pendant o blaid naill ai trosglwyddo i Wrecsam neu aros o fewn Sir Ddinbych.

Iechyd

6.50 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ym mharagraff 7.36, trafodwyd y trefniadau gofal iechyd ar gyfer yr ardal. Roedd sawl un o'r sylwadau cychwynnol a dderbyniwyd gennym yn awgrymu bod y trefniadau presennol hyn yn dwysau'r rhaniad wrth ddarparu gofal iechyd ac yn creu rhwystr i ddatblygu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. Ym mharagraffau 7.38 a 7.39 ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft ystyriwyd goblygiadau dogfen ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol "Newid Strwythurol o fewn y GIG yng Nghymru". Daethom i'r casgliad, ym mharagraff 7.40, fod yna faterion ar gyfer y tymor hwy mewn perthynas â gwasanaethau gofal iechyd lleol o fewn Llangollen. Roeddem o'r farn y gallai cyfeiriad y Cynulliad Cenedlaethol yn eu dogfen ymgynghorol at y cwestiwn o gydffinio rhwng gwasanaethau awdurdodau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol fod yn berthnasol i'r sefyllfa leol pe digwyddai hyn, ond mae'r terfynau amser ar gyfer digwyddiad o'r fath y tu hwnt i derfynau amser yr Arolwg hwn.

6.51 Yn eu sylwadau mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac eraill yn ystyried ei bod yn gwneud synnwyr at ddibenion integreiddio gwasanaethau i Langollen a Llandysilio-yn-Iâl fod yn rhan o Fwrdeistref Sirol Wrecsam, felly gellir gweithredu'r bwriad i ddod â ffiniau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd mewn ffordd sy'n darparu gwasanaeth parhaus i'r cyhoedd mewn ffordd resymegol.

6.52 Roedd Cyngor Sir Ddinbych ac eraill o'r farn bod y pwynt yn ymwneud â cydffinio a darpariaeth y Gwasanaeth Iechyd wedi'i orddatgan, gan nad oes gan y ddarpariaeth gwasanaethau aciwt unrhyw gysylltiad penodol â ffiniau awdurdodau lleol ac na fydd y gofal sylfaenol a ddarperir yn lleol yn newid waeth beth fydd y trefniadau gweinyddol newydd. Nododd y Cyngor bod yna enghreifftiau ymhob awdurdod unedol yng Nghymru lle y darperir gwasanaethau meddygon teulu ar eu ffiniau gan feddygon teulu y mae eu meddygfeydd yn ymestyn ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol. Felly ystyriwyd ganddynt na fyddai'n briodol seilio penderfyniad ar drosglwyddo ardaloedd llywodraeth leol ar y chydffinio rhwng Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

6.53 Ystyriwn er bod manteision posibl i'r cydffinio rhwng ffiniau Iechyd a ffiniau Awdurdodau Lleol, nad yw'n hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau Iechyd neu wasanaethau llywodraeth leol yn effeithiol. Ystyriwn y gellir rheoli materion iechyd traws-ffiniol yn effeithiol mewn ffordd gydweithredol gan y cyrff dan sylw ac na ddylai hyn fod yn ffactor penderfynu wrth ystyried ffiniau llywodraeth leol.

Yr Heddlu, Tân, Ambiwlans a'r Llysoedd

6.54 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, nodwyd gan na weithredir y swyddogaethau hyn gan awdurdodau'r llywodraeth leol, bod ystyried eu trefniadaeth a'u gweithrediadau y tu allan i gylch gwaith y Comisiwn. O ran yr Heddlu, nodwyd sylw Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru mai ei fwriad oedd cywiro'r anghysondeb bod Llangollen yn cael ei phlismona o'r tu allan i ardal ei hawdurdod lleol. Nodwyd hefyd y pwynt a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Llywodraeth Ganolog yn annog meddwl cydlynus a chydweithio rhwng asiantaethau a'i bod felly yn bwysig sicrhau aliniad rhwng ffiniau lle bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, rydym yn parhau o'r farn tra ein bod yn ystyried unrhyw fanteision neu anfanteision a allai ddeillio o ad-drefniant arfaethedig o'r ffin na ellid eu hystyried fel rhesymau sylfaenol dros newid.

Casgliad

6.55 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ar ôl ystyried y materion sy'n ymwneud ag ystyried y newid arfaethedig yn nhermau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, ymddangosai, yn y rhan fwyaf o achosion, fod cydbwysedd agos. Ar ôl rhoi ystyriaeth fanwl i'r sylwadau a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi ein Cynigion Drafft, rydym yn parhau o'r un farn. Ein barn yw nad yw manteision tybiedig y newid arfaethedig yn fwy na manteision tybiedig y trefniadau presennol o gofio'r costau y bydd y cynghorau yn mynd iddynt wrth weinyddu'r newid. Felly, cadarnhawn ein casgliad yn y Cynigion Drafft sef na allwn argymell newid i'r ffin.

6.56 Wrth ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gennym, nodwyd y teimladau cryf a fynegwyd gan y rheini ar ddwy ochr y ddadl. Bu nifer o'r sylwadau a gyflwynwyd yn emosiynol gan fynegi materion o farn nas ategwyd gan ffeithiau. Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am egluro'r ffeithiau sy'n sail i nifer o'r materion hyn.

6.57 Derbyniwyd nifer o sylwadau mewn perthynas â'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd gennym yn Neuadd y Dref Llangollen ar 30 Ionawr 2002 a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ymateb iddynt. Mynegwyd pryderon na roddwyd digon o gyhoeddusrwydd i'r cyfarfod ac na roddwyd llawer o gyfle i'r bobl leol siarad. Yn nhermau rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod gwnaed ymdrechion i sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd a phartïon â diddordeb yn ymwybodol o'i chynnal a bod croeso iddynt ei mynychu. Ar y diwrnod y penderfynodd y Comisiwn gynnal cyfarfod cyhoeddus cyhoeddwyd hysbysiad i'r wasg yn nodi y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn Llangollen ym mis Ionawr ar ddyddiad i'w gyhoeddi. Ymddangosodd y wybodaeth hon yn y wasg. Cyn gynted ag y gwnaed y trefniadau ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus cyhoeddwyd datganiad arall i'r wasg yn nodi dyddiad ac amser y cyfarfod ac yn gwahodd partïon â diddordeb i fynychu. Eto ymddangosodd y wybodaeth hon yn y wasg. Hefyd, anfonwyd copïau o hysbysiad cyhoeddus i Gyngor Tref Llangollen a Chyngor Cymuned Llandysilio-yn-Iâl gan ofyn iddynt roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod. Anfonwyd copïau o'r hysbysiad cyhoeddus hefyd at Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol yr ardal. Yn olaf cyhoeddwyd hysbysiad arall i'r wasg a gosodwyd hysbyseb yn y papur newydd lleol y diwrnod cyn y cyfarfod. Yn ogystal, hysbysebwyd manylion y cyfarfod ar ein gwefan. O dan yr amgylchiadau rydym yn fodlon y dilynwyd gweithdrefnau a ddylai fod wedi sicrhau y rhoddwyd digon o gyhoeddusrwydd i'r cyfarfod cyhoeddus.

6.58 O ran y beirniadaethau mewn perthynas â'r trefniadau siarad yn y cyfarfod cyhoeddus, gan na allem ragweld faint o bobl fyddai am roi tystiolaeth, y trefniant a wnaed gennym oedd caniatáu i unigolion ein hysbysu o'u bwriad i siarad gan ddyrannu rhif siarad ar sail y cyntaf i'r felin gaiff falu. Galwyd y rheini a gysylltodd â ni yn ystod y cyfarfod ar y sail hon a chaniataom hefyd i dystiolaeth ysgrifenedig gael ei chyflwyno yn ystod y cyfarfod ac i'r rheini a oedd yn bresennol i anfon tystiolaeth ysgrifenedig bellach atom erbyn 6ed Chwefror 2002. Nodwyd gennym fod rhywfaint o amser yn weddill ar ddiwedd y cyfarfod i siaradwyr ychwanegol pe byddai unrhyw un wedi dymuno siarad. Os oedd unigolion yn teimlo na allent roi eu tystiolaeth yn gyhoeddus, cynigiwyd y cyfle iddynt anfon eu sylwadau yn ysgrifenedig i'r Comisiwn a manteisiodd rhai trigolion ar y cyfle hwn. At hyn, credwn y byddem wedi derbyn mwy fyth o feirniadaeth pe cynhaliwyd y cyfarfod yn breifat. I gloi, credwn i ni roi cyfle rhesymol i'r trigolion lleol leisio eu barn.

7. CYNIGION

7.1 Cynhaliwyd yr arolwg hwn gennym yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a oedd ar gael i ni nid oes gennym unrhyw gynigion ar gyfer newid y ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ardal Cymunedau Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn Sir Ddinbych a Chymunedau Penycae, Cefn, Llangollen Wledig, Y Waun, Glyntraean a Llansanffraid Glyn Ceiriog ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

8. CYDNABYDDIAETHAU

8.1 Hoffem fynegi ein diolch i'r holl brif gynghorau a'r holl gynghorau cymuned am eu cymorth yn ystod yr arolwg ac i bob corff a pherson a gyflwynodd sylwadau i ni.

9. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

9.1 Ar ôl cwblhau ein harolwg o ran o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ardal Cymunedau Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn Sir Ddinbych a Chymunedau Penycae, Cefn, Llangollen Wledig, Y Waun, Glyntraean a Llansanffraid Glyn Ceiriog ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a chyflwyno ein hargymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaeth statudol o dan y cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

9.2 Cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach, os gwêl fod hynny'n briodol, yw eu gweithredu ynghyd ag addasiadau neu hebddynt drwy gyfrwng Gorchymyn neu gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg pellach. Ni wneir Gorchymyn o'r fath yn gynt na chyfnod o chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

9.3 Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau pellach yn ymwneud â'r materion yn yr adroddiad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid eu cyflwyno cyn gynted â phosibl, ac yn sicr heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid cyfeirio sylwadau at:

Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol 2
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

MRS S G SMITH LLB (Cadeirydd)

J DAVIES ICSA IPFA (Dirprwy Gadeirydd)

D H ROBERTS BSc. DMS MBCS MIMgt (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Mawrth 2002